



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor Sir      Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2012  
Rhif Union: 01824712589  
ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 28 CHWEFROR 2012 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw eitemau a nodwyd fel rhai i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL** (Tudalennau 9 - 14)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (copi'n amgaeëdig) sy'n amlinellu ymateb y Cyngor i Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**6 Y DRETH GYNGOR 2012/13 A MATERION CYSYLLTIEDIG** (Tudalennau 15 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) i ystyried y praespetau a dderbynnir gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref / Gymuned a datgan lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012 / 2013.

**7 ARGYMHELLION Y GRWP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 23 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi i ddilyn) sy'n cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad ac mewn atodiad cyfrinachol ar y bidiau cyfalaf a dderbyniwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf y Cyngor 2012/13.

**8 ADOLYGU'R SYSTEM GRAFFU NEWYDD** (Tudalennau 31 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (copi'n amgaeëdig) sy'n amlinellu casgliadau adolygiad o'r system graffu newydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2011.

**Egwyl Gysur**

**9 ADOLYGU'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 47 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeedig) yn hysbysu'r Aelodau o ganlyniad y broses ymgynghori hyd yma a meysydd lle'r awgrymir newid i Gyfansoddiad y Cyngor.

**10 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2012/13 A DANGOSYDDION DARBODUS 2012 / 13 I 2014 / 15** (Tudalennau 81 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) sy'n dangos sut bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod a gofyn am gymeradwyaeth i bolisiau o fewn y rhain y mae swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu.

**11 AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU AR GYFER 2012/13**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi i ddilyn) i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2012 / 2013 fel y manylir yn atodiad 1 i'r adroddiad.

**12 RHYBYDD O GYNNIG**

Ystyried y Cynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Blakeley:

"Bod y Cyngor yn cydnabod gyda phryder y ffaith bod Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi dod i gasgliad rhagarweiniol bod y Cyngor Sir wedi gwneud darpariaeth annigonol ar gyfer tai.

Bod y Cyngor hwn yn dymuno atgoffa aelodau'r Cabinet a'r swyddogion o gwmpas yr awdurdod a ddirprwywyd iddynt a chynabod mai mater i'r Cyngor llawn yw penderfynu ar unrhyw newidiadau i gynlluniau a newidiadau sy'n cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.

Bod y Cyngor hwn yn dymuno hysbysu'r Arolygydd bod angen hysbysu holl Aelodau'r Cyngor o unrhyw newid i bolisi, cynigion neu strategaeth a drafodir gan y swyddogion, mewn cyfarfodydd esbonio, ar ran Cyngor Sir Ddinbych, eu bod yn faterion sydd angen yn gyntaf eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn."

**13 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR I'R DYFODOL** (Tudalennau 107 - 110)

Ystyried rhaglen waith y Cyngor i'r dyfodol (copi'n amgaeedig).

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong  
Raymond Bartley  
John Bellis  
Brian Blakeley  
Joan Butterfield  
June Cahill  
Jeanette Chamberlain-Jones  
William Cowie  
Ann Davies  
Carl Davies  
James Davies  
Meirick Davies  
Pauline Dobb  
Peter Duffy  
Michael Eckersley  
Christine Evans  
Gwilym Evans  
Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Sharon Frobisher  
George Green  
Ian Gunning  
Diana Hannam  
Colin Hughes

Neville Hughes  
Rhiannon Hughes  
Rhys Hughes  
Glyn Jones  
Huw Jones  
Morfudd Jones  
Richard Jones  
Gwyneth Kensler  
David Lee  
Paul Marfleet  
Lucy Morris  
Peter Owen  
Dewi Owens  
Allan Pennington  
Barbara Smith  
David Smith  
David Thomas  
Selwyn Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Cefyn Williams  
Eryl Williams  
Glyn Williams  
Jane Yorke

### **COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned

## Y CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN ddydd Mawrth 7 Chwefror 2012 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Councillors Ian Armstrong, Raymond Bartley, John Bellis, Brian Blakeley, Joan Butterfield, June Cahill, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie (Cadeirydd), Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Pauline Dobb, Michael Eckersley, Christine Evans, Gwilym Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Sharon Frobisher, George Green, Ian Gunning, Diana Hannam, Neville Hughes, Rhys Hughes, Glyn Jones, Huw Jones, Morfudd Jones, Richard Jones, Gwyneth Kensler, Paul Marfleet, Lucy Morris, Peter Owen, Dewi Owens, Allan Pennington, Barbara Smith, David Smith, David Thomas, Selwyn Thomas, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Eryl Williams and Jane Yorke

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW); Demograffig, Lles a Chynllunio (SE) a Thrawsnewid Busnes ac Adfywio (BJ), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol (GB), Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (RS) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ).

## PWYNTIAU O SYLW

- Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor â'r Cynghorydd C Hughes ar golli'i fam.
- Cyfeiriodd yr Arweinydd, y Cynghorydd H H Evans at Archwiliad diweddar Estyn o'r Gwasanaethau Addysg ac er nad yw'r canfyddiadau byth wedi'u cadarnhau, roedd yn falch o ddweud fod safle'r awdurdod yn bositif a chanmolodd agwedd y cyngor at y broses. Canmolodd hefyd wybodaeth y cynghorwyr o'r gwasanaethau addysg gan gyfeirio'n benodol at y Cadeiryddion Archwilio. Yn olaf, soniodd am waith yr Aelod Arweiniol dros yr Iaith Gymraeg, Plant, Pobl Ifanc a Hamdden a'r Aelod Arweiniol dros Addysg yn arwain yr awdurdod trwy rai amgylchiadau anodd. Diolchwyd yn arbennig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau a'i staff.
- Darllenodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd rybudd o gynnig yr oedd wedi'i dderbyn yn union cyn y cyfarfod ynghylch casgliad rhagarweiniol yr Arolygydd ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol; faint o awdurdod dirprwyedig a roddwyd mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol a'r angen i hysbysu'r Cyngor am faterion cysylltiedig sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Ei gyngor oedd na ddylid ystyried y mater yng nghyfarfod heddiw gan nad oedd yn eitem frys ond y gellid ei osod ar agenda nesaf y Cyngor pe byddai rhybudd priodol o gynnig yn cael ei roi.

## GWEDDIAU

Offrymodd y Parch Val Rowlands weddïau ar ddechrau'r cyfarfod.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr C Hughes, R W Hughes, D W Lee a G Williams.

### 2 DATGAN DIDDORDEB

Mynegodd y Cyngorydd I A Gunning diddordeb yn eitem agenda 7 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2007 gan ei fod yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

### 3 MATERION BRYG A GYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryg.

### 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith dinesig yr oedd wedi'i wneud ar ran y Cyngor ym mis Ionawr 2012 (cylchredwyd y dyddiadau o'r blaen).

**PENDERFYNWYD** nodi'r digwyddiadau y bu'r Cadeirydd yn bresennol ynddynt ym mis Ionawr 2012.

### 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2012.

Cywirdeb – Dywedodd y Cyngorydd E R Jones nad oedd yr ymddiheuriadau yr oedd wedi'u cyflwyno wedi'u cofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### 6 CYLLIDEB 2012/2013

Cyflwynodd y Cyngorydd J Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithiolrwydd adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo cyllideb 2012 / 13 a chytuno i gynnydd o 2.8% yn lefel Treth y Cyngor o ganlyniad.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol fod mwy o aelodau wedi cymryd rhan yn y broses gyllideb o gymharu â'r blynyddoedd cynt a bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a fu'n archwilio'r broses o'r farn ei bod wedi llwyddo. Dywedwyd wrth aelodau fod setliad terfynol Lywodraeth Cymru wedi dangos cynnydd o 0.7% mewn grant refeniw ond 6.9% o ostyngiad yn y setliad cyfalaf. Amlygwyd goblygiadau hynny i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yr arbedion y byddai'n rhaid eu cael yn ystod y tair blynedd nesaf a'r rhagolygon diweddaraf o ran rhagdybiaethau cyllidebol.

Cyfeiriwyd hefyd at y dyraniadau ar gyfer buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth ac argymhelliad y Cabinet y dylai cronfeydd wrth gefn sy'n dal heb eu gwario gael eu dyrannu i Ysgolion yr 21 Ganrif a Chynlluniau Tref a Chymunedau (byddai'r union ddyraniad yn amodol ar gyflwyno achos busnes llawn i'r Cabinet). Byddai'r cynigion yn y gyllideb yn arwain at gynnydd o 2.8% yn Nhreth y Cyngor ac mae'r ffigyrau dangosol yn awgrymu y byddai codiad treth Sir Ddinbych yn debyg o fod yr ail isaf yng Ngogledd Cymru yn 2012 / 13. Mae cymariaethau ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru'n awgrymu fod Sir Ddinbych wedi cau'r blwch i tua £10 ar eiddo Band D.

I orffen, pwysleisiodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod yn rhaid i'r gyllideb fod yn gynaliadwy a'i bod wedi'i datblygu gyda'r bwriad o warchod gwasanaethau'r rheng flaen gymaint ag sydd bosibl. Byddai'r cynigion yn arwain at fwy na £3 miliwn o arbedion, £1.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn blaenoriaethau ac £1.4 miliwn arall mewn ysgolion. Byddai'r gyllideb arfaethedig yn golygu y byddai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn is na chwyddiant ac y byddai'r awdurdod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd J Thompson-Hill a'u heilio gan y Cynghorydd M J Eckersley.

I fod yn glir, dywedodd y Cynghorydd E W Williams fod y Cabinet wedi argymhell y dylid dyrannu'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu gwario i Foderneiddio Addysg a bod Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhan o hynny. Er cysondeb, gofynnodd i'r Cyngor ddyrannu'r cyllid hwnnw i Foderneiddio Addysg. Derbyniodd yr aelodau'r newid ac wrth bleidleisio -

#### **PENDERFYNWYD -**

- (a) *yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo cynigion cyllideb 2012 / 13 y mae ei fanylion yn yr atodiad, a*
- (b) *cytuno â'r cynnydd o ganlyniad o 2.8% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2012 / 13.*

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod y gyllideb yn un synhwyrol a fyddai'n golygu fod yr awdurdod mewn sefyllfa gadarn yn y tymor canolog. Roedd wedi ceisio cynnwys cymaint ag oedd yn bosibl ar yr aelodau yn y broses o osod cyllideb a chredai fod hynny wedi'i adlewyrchu yn y diffyg cwestiynau cyn cymeradwyo'r gyllideb. Roedd yn gobeithio dal i wella'r broses gyda'r bwriad o sicrhau penderfyniad unfrydol ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf.

## **7 RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (YFED ALCOHOL MEWN MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG) 2007.**

Mynegodd y Cynghorydd I A Gunning ddiddordeb yn yr eitem hon gan ei fod yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn gofyn i'r aelodau ystyried gweithredu gorchymyn ynghylch yfed alcohol yn yr holl fannau cyhoeddus o fewn cyfyngiad

cyflymder 30 milltir yr awr yn y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Llangollen, Corwen, Dyserth a Bodelwyddan. Roedd gwybodaeth ystadegol ynghylch y nifer o drosedd cysylltiedig ag alcohol yn yr ardaloedd arfaethedig (Atodiad A); ymatebion i'r ymgynghori ar y cynigion (Atodiad B) ynghyd â Rhybudd Cyhoeddus (Atodiad C) ynghlwm wrth i'r adroddiad.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio a'r Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol -

- nad bwriad y Gorchymyn oedd gosod gwaharddiad ar yfed ond byddai'n rhoi dewis effeithiol i'r Heddlu ddefnyddio'r hawliau i daclo niwsans cyhoeddus ac anhrefn yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn Sir Ddinbych.
- gellid ymestyn yr ardaloedd sy'n destun Gorchymyn ar hyn o bryd a chynnwys ardaloedd newydd pe byddai'r dystiolaeth yn dangos problemau trosedd, niwsans cyhoeddus, anhrefn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol yn gysylltiedig ag yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus.
- rhoddwyd ychydig o hanes cefndir yr adroddiad gyda manylion yr ardaloedd ble mae'r Gorchymynion eisoes mewn grym a'r manteision sy'n deillio o hynny, ond mai canlyniad y llwyddiant oedd bod pobl wedi mynd i fannau eraill i yfed.
- nodwyd enghreifftiau o ba bryd y gallai'r Heddlu ymarfer eu dewis o dan y Gorchymyn gan gynnwys cwtogi ar weithgareddau yfwyr dan oed ac yfwyr yn casglu mewn ardaloedd penodol a allai aflonyddu ar y gymuned.
- cadarnhau fod yr ardaloedd arfaethedig wedi'u nodi ar ôl cynnal asesiad strategol o drosedd ac anhrefn ac y byddai hynny'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Trafododd yr Aelodau ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghyd â'r dystiolaeth o ran troseddau mewn perthynas ag alcohol yn yr ardaloedd arfaethedig. Yn gyffredinol, croesawodd yr aelodau'r adroddiad gan gefnogi cyflwyno Gorchymyn i ateb y problemau sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus. Mae'r llwyddiant yn y Rhyl ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn yn cael ei ddangos gan dystiolaeth y bu gostyngiad yn y nifer o droseddau cysylltiedig ag alcohol a'r gobraith oedd y gellid ailadrodd hyn mewn ardaloedd eraill. Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith partneriaeth llwyddiannus rhwng y Cyngor a'r Heddlu a oedd yn enghraifft ragorol o gydweithio er budd y gymuned. Fodd bynnag, codwyd nifer o amheuon ynghylch cymesuradwyedd, gan ofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddai'r Heddlu'n defnyddio'r hawliau mewn amgylchiadau penodol a'r goblygiadau o gyflwyno'r Gorchymyn. Mynegwyd nifer o bryderon hefyd ynghylch diffyg ystadegau manwl i gefnogi'r cynigion eang.

Atebodd y swyddogion yr aelodau fel a ganlyn -

- cadarnhau fod trosedd cysylltiedig ag alcohol wedi gostwng yng Nghonwy a Sir Ddinbych o gymharu â chynnydd yn ardaloedd awdurdodau cyfagos a bod hynny'n amlygu gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a mesurau gorfodaeth i daclo'r broblem.
- y disgwyl y byddai cyflwyno'r cynigion o gymorth i gynnal a gwella perfformiad yn y dyfodol drwy roi pwerau i reoli yfed gwrth gymdeithasol.
- roedd yr Heddlu wedi cyflwyno ystadegau manwl ac roedd trosolwg o hynny yn yr adroddiad; gellid cyflwyno'r manylion llawn i'r pwyllgor archwilio perthnasol ac i grwpiau aelodau ardaloedd i ymgynghori ymhellach pe byddai angen.

- yr ystadegau yn yr adroddiad oedd sail yr ymgynghori er bod ystadegau pellach o Ebrill 2010 ymlaen ar gael ar gais.

Trafododd yr Aelodau hefyd nifer o faterion gyda'r swyddogion yn gysylltiedig â'u tref a'u cymunedau eu hunain fel a ganlyn -

- er yn croesawu'r estyniad i'r Gorchymyn presennol, roedd y Cynghorwyr D Hannam, J Butterfield a B Blakeley yn falch iawn o nodi'r gostyngiad mewn trosedd cysylltiedig ag alcohol yn y Rhyl a thalwyd teyrnged i waith caled pawb oedd â rhan yn hynny. Cyfeiriwyd at broblemau cysylltiedig ag yfwyr stryd penderfynol, at bobl yn ymhél y tu allan i eiddo penodol ac at anawsterau rheoli'r problemau hynny. Wrth ateb cwestiynau, dywedodd y Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol mai rôl yr Heddlu oedd rheoli ymddygiad gwrth gymdeithasol a bod y Cyngor yn rhoi cymorth trwy ddarparu Teledu Cylch Cyfyng ac yn cysylltu â'r trwyddedeion wrth dalu sylw i ymddygiad eu cwsmeriaid.
- Croesawodd y Cynghorydd J R Bartley y ffaith fod y Gorchymyn yn cael ei gyflwyno i Ddinbych ond mynegodd ei bryder fod y broses ar gyfer gwneud hynny mor hir. Dywedodd y dylai partneriaid yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n well â'i gilydd. Dywedodd y Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol nad oedd Cyngor Tref Dinbych wedi cadarnhau'i gefnogaeth i'r Gorchymyn tan fis Rhagfyr 2010.
- Dywedodd y Cynghorydd E R Jones fod ffigyrau troseddau Bodelwyddan yn gamarweiniol gan eu bod yn cynnwys digwyddiadau mewn perthynas ag Ysbyty Glan Clwyd a bod 41 o droseddau a gofnodwyd ym mis Awst ynghylch un digwyddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol fod yr Heddlu yn cofnodi nifer y troseddau yn hytrach na nifer y troseddwyr a chytunodd i baratoi manylion pellach y ffigyrau troseddau i'r Cynghorwyr E R Jones ac M LI Davies. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio hefyd i ofyn i'r Heddlu wahaniaethu rhwng y dref a'r ysbyty wrth baratoi ffigyrau troseddau yn y dyfodol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd B Smith at achlysuron pan oedd yr Heddlu wedi bod yn or-eiddgar wrth ymdrin â phobl ifanc a theimlai y gallai problemau godi pe byddai pobl ifanc ddiniwed yn cael eu herio. Nododd y Cadeirydd mai mater i'r Heddlu yw sut y maen nhw'n ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath. Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio y gallai Grwpiau Aelodau Ardaloedd fod â diddordeb mewn archwilio achosion unigol yn codi o'r asesiad strategol blynyddol o drosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd J M Davies nad oedd yr ymgynghoriad ynghylch y Gorchymyn ar gyfer Brestatyn wedi'i ddwyn o flaen y Cyngor Tref na'r Grŵp Aelod Ardaloedd ond ei fod wedi'i drin gan Glerc y Dref ac yna'r Maer, y Cynghorydd M J Eckersley. [Cyfeiriodd y Cynghorydd M H Eckersley at nifer o anghysonderau ar yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Gyngor Tref Prestatyn a ddylai fod wedi dangos yn glir fod cefnogaeth i'r Gorchymyn ym Mhrestatyn.] Teimlai'r Cynghorydd Davies y gallai'r Gorchymyn fod yn fesur rhy llym a mynegodd

amheuron nad oedd ystadegau troseddau yn cyd-fynd ag achosion o yfed ar y stryd a bod angen rhagor o dystiolaeth. Cytunodd y swyddogion fod cymesuradwyedd yn bwysig a rhoddodd sicrwydd mai dim ond pan fyddai'n briodol y gweithredid ac y byddai digwyddiadau a fyddai wedi derbyn Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn cael eu heithrio o'r Gorchymyn.

- Dywedodd y Cynghorydd T R Hughes nad oedd yn dymuno gweld nifer o arwyddion yn cael eu codi yn Llangollen yn nodi'r ardaloedd lle byddai'r Gorchymyn yn berthnasol. Mewn ymateb i'w bryder ac i gwestiynau pellach soniodd y Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol am yr hawliau sydd gan yr Heddlu i ymdrin ag yfed gwrth gymdeithasol ac am y rhesymeg y tu ôl i'r estyniad i ymdrin â phroblemau adleoli a diogelwch y ffordd. Doedd dim rhaid codi arwyddion ond yr ystyrid ei bod yn ymarfer da cael arwyddion mewn mannau allweddol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd B Feeley at Wyl Rhuthun a holodd faint o fudd fyddai Gorchymyn i ymdrin ag ymddygiad gwrth gymdeithasol. Pwysleisiodd hefyd nad oes Deledu Cylch Cyfyng digonol yn y dref, bod Gorsafoedd yr Heddlu yn Llangollen a Rhuthun wedi cau a bod hynny'n effeithio ar drosedd ac anhrefn. Dywedodd y Rheolwr Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol bod ardaloedd eraill wedi bod ar eu mantais ac y gallai'r mater gael ei adolygu trwy'r broses archwilio. Er yn gyfyngedig, roedd Teledu Cylch Cyfyng wedi bod o fantais i ddangos problemau mewn rhai mannau o Ruthun. O ran Gŵyl Rhuthun, rhoddwyd trwydded eiddo sy'n disodli'r Gorchymyn ond gellid dal i reoli rhai'n yfed ac yn achosi pryder y tu allan i'r ardal ddynodedig.

Sicrhaodd y Cynghorydd I A Gunning yr aelodau fod Sir Ddinbych yn lle diogel i fyw ac i ymweld ond fod problemau gwrth gymdeithasol yn gysylltiedig ag yfed. Croesawodd y Gorchymyn fel teclyn gwerthfawr i leihau trosedd ac anhrefn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol yn gysylltiedig ag yfed. Cyflwynodd nifer o ystadegau yn amlygu gwaith da'r bartneriaeth gref rhwng y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru. O ran y posibilrwydd o doriadau ac o gau Gorsafoedd yr Heddlu, dywedodd y Cynghorydd Gunning nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u cymryd ar gau gorsafoedd a bod yr Heddlu ar hyn o bryd yn dal i recriwtio. Rhoddodd sicrwydd y byddai'r Heddlu'n dal â phresenoldeb cryf.

Cynigodd y Cynghorydd S Frobisher, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd I A Gunning, y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Ar ôl pleidlais:-

#### **PENDERFYNWYD -**

- (a) *Fod yr Aelodau'n nodi canlyniadau'r ymgynghoriad gyda Heddlu Gogledd Cymru, Cyngorau Tref a Chymuned a pherchnogion tir sy'n dod o dan y Gorchymyn; ac*
- (b) *Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd, gwneud Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig a chaniatáu awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio i -*

- *wneud gorchymyn yn nodi'r ardaloedd a enwir yn yr adroddiad fel Mannau Cyhoeddus Dynodedig at ddibenion Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.*
- *cyhoeddi rhybudd o wneud gorchymyn o'r fath*
- *codi arwyddion yn nodi'r ardaloedd a restrir fel Mannau Cyhoeddus Dynodedig*
- *sicrhau fod copi o'r gorchymyn yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Swyddfa Gartref.*

## 8 **BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaen Raglen Waith y Cyngor i'w hystyried gan sôn y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir ar 28 Chwefror. Cyfeiriodd hefyd at y posibilrwydd o gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ym mis Mawrth yn dibynnu ar y busnes i'w drafod.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd T R Hughes, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio y byddai'n cynnwys yr eitem ar brosiect Harbwr y Foryd ar Raglen Waith yn y dyfodol.

***Penderfynwyd - derbyn a nodi Blaen Raglen Waith y Cyngor.***

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25pm.

**Adroddiad i'r: Cyngor, Chwefror 28ain 2012**

**Aelod Arweiniol: Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor**

**Awdur yr Adroddiad: Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad**

**Teitl: Ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Gwella Blynyddol**

---

**1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?**

Ymateb y Cyngor i Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

**2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?**

Gwneud sylwadau ar gynnydd y Cyngor a hysbysu'r Aelodau o'r camau a gynigir mewn ymateb i'r 'cynigion ar gyfer gwella' a wneir yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Cydnabod y cynnwys.

**4. Cefndir**

4.1. Dan y Mesur Llywodraeth Leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n mesur cynnydd y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella, ac sy'n dwyn ynghyd waith cyrff rheoleiddio eraill, yn benodol ESTYN ac AGGCC. Mae'r adroddiad yn asesu cynnydd ac yn adeiladu ar waith Asesu Gwelliannau blynyddol, sy'n asesu tebygolrwydd y Cyngor o wella.

4.2. Y casgliad cyffredinol eleni yw bod y Cyngor yn cyflawni gwell canlyniadau i'w drigolion ac wedi gwneud cynnydd da wrth ddelio â'r meysydd hynny a amlygwyd yn y gorffennol fel rhai lle'r oedd angen gwella. Mae'r Cyngor wedi gwella'n fawr iawn o gymharu â'r sefyllfa yn 2008 pan roedd gan y rheolyddion bryderon difrifol ynglŷn â gallu'r Cyngor i wella. Mae Sir Ddinbych bellach yn un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru.

4.3. Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae Sir Ddinbych wedi ei hadnabod fel cyngor sy'n cyflawni'r perfformiad cyffredinol gorau yng Nghymru ar draws y set lawn o ddangosyddion cenedlaethol. O ran y weledigaeth a bennwyd gennym yn 2009, mae Sir Ddinbych yn ddios yn Gyngor sy'n 'perfformio'n uchel'.

4.4. Cydnabyddir bod rhai o'n gwasanaethau ymhlith y gorau yng Nghymru, er enghraifft: Casglu gwastraff; Casglu'r Dreth Gyngor a Goleuadau Stryd. Rydym ar y llwybr i dderbyn Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer

ein holl dai Cyngor, lle nad yw llawer o Gynghorau wedi gwneud llawer o gynnydd. Ar gyfer pobl hŷn, rydym wedi agor dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r gwasanaeth ailalluogi newydd yn cyflawni canlyniadau gwirioneddol gadarnhaol i helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain.

- 4.5. Mewn Addysg, maes gwan yn y gorffennol, mae ein perfformiad wedi gwella'n arwyddocaol ac mae'n bennaf yn y chwartil uchaf yng Nghymru. Mae hyn wedi ei gydnabod gan ESTYN mewn archwiliad yn ddiweddar, ac er na fydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, mae adborth anffurfiol yn rhoi Sir Ddinbych fel un o'r gwasanaethau addysg sy'n perfformio orau yng Nghymru.
- 4.6. Mae'r newidiadau yn strwythur y Cyngor yn ystod y deuddeg mis nesaf – yn enwedig newidiadau yn rolau'r uwch dîm rheoli a'r system Graffu – hefyd wedi eu cydnabod gan Swyddfa Archwilio Cymru fel newidiadau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at wella'r Cyngor.

## **5. Argymhellion gan yr Archwiliwr Cyffredinol**

- 5.1. Os oes gan SAC bryderon arwyddocaol ynglŷn â'r Cyngor neu'r cyfeiriad y mae'n mynd iddo, bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cynnwys argymhellion ffurfiol i'w gweithredu. Nid oes gan yr Adroddiad ar gyfer Sir Ddinbych unrhyw argymhellion ffurfiol eleni (nid oedd rhai y llynedd 'chwaith), sy'n adlewyrchu barn gadarnhaol SAC o gynnydd y Cyngor.
- 5.2. Nid yw hyn yn golygu bod popeth yn iawn, fodd bynnag. Yn anochel mae rhai pethau angen mwy o waith ac mae Adroddiadau Blynyddol eleni a'r llynedd yn gwneud rhai cynigion ar gyfer gwella. Rydym wedi gweld cynnydd da gyda'r holl gynigion a wnaed yn adroddiad 2009/10 ac eleni mae'r Arolygwyr wedi gwneud dau gynnig pellach, y teimlant y byddant yn helpu'r Cyngor barhau i wella. Y rhain yw:

*P1. Dylai'r Cyngor, fel awdurdodau eraill yng Nghymru, ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad cadarnhach o'u heffeithiolrwydd.*

*P2. Erbyn Medi 2012, dylai'r Cyngor sefydlu sut y bydd yn cefnogi cynllun darparu Y Rhyl yn Symud Ymlaen, gan gynnwys:*

- *Dangos sut mae'n ffitio gyda rhaglen adfywio'r sir*
- *Cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gefnogi cyflawni'r cynllun; a*
- *Threfniadau ar gyfer arfarniad o'r cynnydd o bryd i'w gilydd.*

- 5.3. Ymateb i P1.

Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu elfen hunanasesu ei systemau rheoli perfformiad mewn blynyddoedd diweddar, ac mae'r fframwaith presennol yn eithaf cadarn. Mae'n cynnwys dau hunanasesiad Gwasanaeth blynyddol trwy'r system Herio Perfformiad, ynghyd â hunanasesiad corfforaethol cyffredinol. Gyda hyn mae gwaith ar wahân o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar gyfer ESTYN. Mae cynyddu elfen hunan-ddadansoddi beirniadol yn yr adolygiad llywodraethu blynyddol a'r datganiad llywodraethu blynyddol sy'n deillio wedi ei adnabod fel cyfle i gryfhau'r system hon ymhellach.

- 5.4 Yn unol â hyn, byddwn yn cryfhau'r elfen hunanasesu yn yr adolygiad o effeithiolrwydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gydag elfennau allweddol Llywodraethu Corfforaethol bellach yn eu lle, bydd hyn yn cynyddu'r pwyslais ar brofi effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor. Bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn Mai 2012 ac yn ffurfio rhan o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12.

### Ymateb i P2

- 5.5. Mae Strategaeth Adfywio'r Sir yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gwaith cefndir o ddadansoddi'r problemau economaidd a chymdeithasol ledled y Sir yn dangos y problemau arwyddocaol sy'n bodoli yn y Rhyl o gymharu â rhannau eraill y Sir. Oherwydd hyn, rhagwelir y bydd Strategaeth Adfywio'r Sir yn cydnabod a blaenoriaethu'r angen i adfywio'r Rhyl. Bydd yn galluogi adnabod "themâu cyffredin" a delio â hwy mewn modd mwy cynhwysfawr ledled y Sir, ynghyd â chanolbwyntio mwy ar rôl pob un o'n trefi yn y Sir, a sut gallai'r rolau hyn fynd gyda'i gilydd yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd. Bydd Strategaeth Adfywio'r Sir wedi ei mabwysiadu erbyn Medi 2012.
- 5.6. Penodwyd Rheolwr Rhaglen newydd i arwain y tîm ym mis Ionawr 2011, gan arwain at fwy o ganolbwyntio ar y gwaith yn y Rhyl. Mae'r tîm bellach yn cynnwys:
- Rheolwr y Rhaglen
  - Prif Swyddog
  - Uwch Swyddog Prosiect
  - Cydgysylltydd Rheoli Cymdogaethau
  - Swyddog Cefnogi
  - Rheolwr Prosiect o'r tîm corfforaethol ar gyfer Harbwr Foryd
  - Swyddog Anghenion Tai o'r Gwasanaethau Tai i gefnogi prosiect Gorllewin y Rhyl

Bydd y tîm hwn yn cael ei wella ymhellach trwy ychwanegu Rheolwr Prosiect Gorllewin y Rhyl a fydd yn gyfrifol am gydgyssylltu cyflawni'r cynigion yng Ngorllewin y Rhyl.

5.7. Fel rhan o'i ymrwymiad i'r flaenoriaeth o adfywio, mae'r Cyngor wedi darparu £175,000 ychwanegol y flwyddyn i gefnogi adfywio'r Rhyl. Mae'r Cynllun Darparu ei hun yn cynnwys cymysgedd o brosiectau ymrwymedig sydd â chyllid yn ei le, a phrosiectau dyheadol lle mae angen adnabod a sicrhau cyllid. Wedi dweud hynny, mae rhai o'r prosiectau allweddol eisoes wedi eu hariannu a'u hymrwymo gan gynnwys:

- £10 miliwn ar gyfer datblygiad Pont a Harbwr Foryd – i gychwyn ar y safle ym mis Mehefin 2012;
- £16 miliwn ar gyfer Gorllewin y Rhyl (£10 miliwn o'r Gronfa Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog a £6 miliwn o Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru) i alluogi cyflawni'r cynigion ar gyfer Gorllewin y Rhyl – gan gynnwys creu manau gwrydd newydd a gwaith ailwampio tai cysylltiedig a datblygiadau newydd;
- £1.3 miliwn i ddatblygu swyddfeydd newydd a reolir yng nghanol y dref (hen dafarn y Bee and Station)

5.8. Mae Bwrdd Rhaglen Cymdogaethau a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen wedi ei sefydlu. Elfen allweddol o waith y Bwrdd fydd gwerthuso cynnydd a chanfod os oes newid gwirioneddol yn cael ei gyflawni. I gynorthwyo gyda hyn, byddwn yn datblygu amrediad o ddangosyddion i fesur yr effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael. Bydd hyn wedi ei ddabtlygu a'i gytuno gan Fwrdd y Rhaglen erbyn Medi 2012.

## **6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r camau arfaethedig yn cefnogi amcan y Cyngor i fod yn gyngor sy'n perfformio'n uchel a'n Hamcan Gwella i Adfywio ein Cymunedau.

## **7. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau adnoddau ychwanegol.

## **8. Pa ymgynghori a fu?**

Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweddnewid Busnes ac Adfywio ar y camau arfaethedig.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'r Adroddiad Gwella Blynnyddol yn gadarnhaol, heb unrhyw argymhellion, ac felly nid oes goblygiadau cost uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risgiau'n cael eu cynhyrchu gan y camau a gynigir yn yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

<b>ADRODDIAD I'R</b>	<b>CYNGOR</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>28 Chwefror 2012</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	<b>Prif Swyddog Cyllid</b>
<b>PWNC</b>	<b>Y DRETH GYNGOR 2012/13 A MATERION CYSYLLTIEDIG</b>

## **1.0 PENNU'R DRETH GYNGOR AR GYFER 2012/2013**

### **1.1 Cefndir**

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Chwefror, ystyriodd yr Aelodau a chymeradwyo cynigion cyllidebol y Cabinet a'r effaith a gawsai hyn ar y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd prif nodweddion y cynigion yn cynnwys

- Cynnydd yng nghyllid refeniw Llywodraeth Cymru o 0.7%
- Gostyngiad yng nghyllid cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru o 6.9%
- Darparu adnoddau ychwanegol i ddelio ag effaith rhai pwysau chwyddiannol
- Amddiffyn cyllidebau ysgol
- Cynnydd ar gyfer ffioedd cartrefi preswyl
- Arbedion o £3.5m
- Buddsoddi £1m mewn meysydd blaenoriaeth

### **1.2 Datganiad Swyddog Adran 151**

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae angen cyflwyno sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar y gyllideb ar gyfer 2012/2013 i'r aelodau.

#### **a) Cadernid Amcangyfrifon y Gyllideb**

Mae'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2012/13 yn cynnwys lefel o amcangyfrifon ariannol. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag effaith digwyddiadau economaidd presennol ar y Cyngor yn y dyfodol. Cymerwyd barn ystyriol ar lefel yr arian y mae'r gwasanaethau ei hangen, ac ar swm ac amseriad arbedion. Mae'r gofyniad i gael £3.5m o arbedion yn amlwg yn risg i'r Cyngor gan ei fod yn dilyn £6.4m o arbedion a wnaed yn 2011/12.

Fodd bynnag, mae'r broses o herio gwasanaethau wedi bod yn drylwyr a chadarn ac mae'r cynigion wedi eu hadolygu nifer o weithiau gan y swyddogion a'r cynghorwyr. Mae'r gyllideb yn dibynnu ar gyflawni'r arbedion arfaethedig a fydd hefyd yn cael eu monitro'n ofalus gan gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y mater i'r Cabinet.

Rwy'n ystyried bod y cynigion cyllidebol ar gyfer 2012/13 yn ddoeth a chadarn.

b) Digonolrwydd cronfeydd wrth gefn

Mae lefel balansau cyffredinol wedi gwella ac rwy'n ystyried eu bod yn gyffredinol briodol o ystyried y risgiau ariannol y mae'r cyngor yn eu wynebu. Mae Cyllideb 2012-13 yn tybio cyfraniad a gyllidebwyd, a fydd yn lleihau'n raddol o 2013/14. Mae balansau cyffredinol digonol yn hanfodol i warchod y Cyngor rhag problemau nas rhagwelwyd neu argyfyngau yn ystod y flwyddyn.

**1.3 Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod y Cyngor ar 7 Chwefror, bydd angen i'r Cyngor gymryd penderfyniadau penodol pellach ar ffurf benodol er mwyn sicrhau bod y Dreth Gyngor a'r materion cysylltiedig yn ddilys yn gyfreithiol. Ynghlwm mae copi o'r penderfyniadau gofynnol a gofynnaf bod y rhain yn cael eu cymeradwyo.**

- 1.4 Y cynnydd canrannol ar gyfartaledd ar gyfer biliau'r Dreth Gyngor (yn seiliedig ar Fand D) yw:-  
Cynnydd Cyngor Sir 2.80%  
Cynnydd Cynghorau Tref a Chymuned ar gyfartaledd 5.17%  
Cynnydd Awdurdod Heddlu 2.49 %

**2.0 PENDERFYNIAD Y DRETH GYNGOR**

Mae angen i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau a dderbynnir gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref a Chymuned a datgan lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/2013.

## 2.1 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – PRAESEPTAU

Derbyniwyd y praeseptau canlynol:-

	2012/13	2011/12
	£	£
Aberwhchwiler	1,950	1,950
Betws Gwerful Goch	2,325	2,004
Bodelwyddan	54,800	31,955
Bodfari	3,075	2,525
Bryneglwys	3,300	3,000
Cefn Meiriadog	2,802	2,250
Clocaenog	4,026	3,990
Corwen	25,000	24,500
Cyffylliog	5,526	3,960
Cynwyd	2,863	2,841
Dinbych	159,838	137,004
Derwen	6,000	6,000
Dyserth	27,400	27,300
Efenechtyd	4,020	3,679
Gwyddelwern	3,440	3,424
Henllan	6,642	6,624
Llanarmon yn Iâl	13,500	12,000
Llanbedr D C	5,000	5,000
Llandegla	5,508	5,508
Llandrillo	5,238	5,166
Llandyrnog	9,869	9,869
Llanelidan	3,075	2,904
Llanfair D C	5,000	4,500
Llanferres	7,500	6,300
Llangollen	82,860	67,860
Llangynhafal	2,500	1,500
Llanrhaeadr Y C	11,760	9,800
Llantysilio	7,100	6,860
Llanynys	6,522	5,232
Nantglyn	4,600	4,266
Prestatyn	350,505	349,650
Rhuddlan	43,150	55,000
Y Rhyl (1)	407,000	401,000
Rhuthun	105,700	103,664
Llanelwy	48,875	45,000
Trefnant	6,350	4,500
Tremeirchion/Cwm/Waen	9,750	9,270
Cyfanswm	1,454,369	1,377,855

### 3.0 CYNGOR SIR DDINBYCH / CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – INCWM A GWARIANT

Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel a ganlyn:-

£		
(a)	Cyfanred y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (2) (a) i (e) y Ddeddf.	277,540,64 9
(b)	Cyfanred y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (3) (a) i (c) y Ddeddf	100,153,64 9
(c)	Y swm gan yr hwn y mae cyfanred Adran 32 (2) uchod yn fwy na chyfanred Adran 32 (3) uchod, wedi ei gyfrifo'n unol ag Adran 32 (4) y Ddeddf, fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn.	177,387,00 0
(ch)	Y cyfanred y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy ar gyfer y flwyddyn i'w gronfa gyffredinol mewn perthynas ag ardrethi annomestig a ail-ddosbarthwyd a grant cymorth refeniw llai cost gostyngiadau ardrethi annomestig dewisol.	137,371,66 3
(d)	Y swm yn (c) uchod llai'r swm yn (ch) uchod, wedi ei rannu gan sylfaen y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn, 38,002 wedi ei gyfrifo gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) y Ddeddf (h.y. swm sylfaenol y Dreth Gyngor).	1,052.98
(dd)	Cyfanred yr holl eitemau arbennig a nodir yn Adran 34 (1) y Ddeddf (Praeseptau Cyngorau Tref/Gymuned).	1,454,369

#### 4.0 CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – Y DRETH GYNGOR

Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/2013, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel a ganlyn:-

(a) y symiau a gyfrifwyd yn unol ag Adrannau 34 (2) a (3) y Ddeddf fel y symiau sylfaenol ar gyfer ei Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â thai annedd mewn rhan o ardal o Cyngor:-

#### Y DRETH GYNGOR 2012/2013 BAND 'D'

<u>Cymuned</u>	<u>Praesept y Gymuned</u> £	<u>Praesept t y Sir</u> £	<u>Cyfansw m</u> £
Aberchwiler	11.54	1052.98	1064.52
Betws G G	15.00	1052.98	1067.98
Bodelwyddan	66.67	1052.98	1119.65
Bodfari	16.27	1052.98	1069.25
Bryneglwys	19.88	1052.98	1072.86
Cefn Meiriadog	13.80	1052.98	1066.78
Clocaenog	35.01	1052.98	1087.99
Corwen	26.29	1052.98	1079.27
Cyffylliog	25.00	1052.98	1077.98
Cynwyd	11.50	1052.98	1064.48
Dinbych	49.00	1052.98	1101.98
Derwen	27.91	1052.98	1080.89
Dyserth	26.73	1052.98	1079.71
Efenechtyd	14.01	1052.98	1066.99
Gwyddelwern	16.00	1052.98	1068.98
Henllan	18.00	1052.98	1070.98
Llanarmon yn Iâl	23.68	1052.98	1076.66
Llanbedr D C	11.06	1052.98	1064.04
Llandegla	21.02	1052.98	1074.00
Llandrillo	18.00	1052.98	1070.98
Llandyrnog	20.73	1052.98	1073.71
Llanelidan	20.50	1052.98	1073.48
Llanfair D C	9.09	1052.98	1062.07
Llanferres	19.18	1052.98	1072.16
Tref Llangollen	49.26	1052.98	1102.24
Llangynhafal	7.74	1052.98	1060.72
Llanrhaeadr Y C	23.90	1052.98	1076.88
Llantysilio	28.40	1052.98	1081.38
Llanynys	20.01	1052.98	1072.99
Nantglyn	28.93	1052.98	1081.91

Prestatyn	46.85	1052.98	1099.83
Rhuddlan	27.89	1052.98	1080.87
Y Rhyl	44.97	1052.98	1097.95
Rhuthun	46.46	1052.98	1099.44
Llanelwy	35.94	1052.98	1088.92
Trefnant	9.65	1052.98	1062.63
Tremeirchion/ Cwm/Waen	15.19	1052.98	1068.17

(b) Y symiau a gyfrifwyd yn unol ag Adran 36 (1) y Ddeddf fel y symiau i'w cymryd i ystyriaeth ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas ag anheddau a restrir mewn bandiau prisio gwahanol (Atodiad A).

## 5.0 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU – PRAESEPT

Praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer 2012/2013 yw £8,153,688

Yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, nodir mai'r y symiau sy'n berthnasol ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas ag anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio yw :-

### Bandiau Prisio

A	B	C	D	E	F	G	H	I
143.04	166.88	190.72	214.56	262.24	309.92	357.60	429.12	500.64

## 6.0 CYFANRED Y DRETH GYNGOR - 2012/2013 (yn cynnwys Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru)

Ar ôl cyfrifo'r symiau cyfanredol ym mhob achos, y symiau yn 4.0 a 5.0 uchod yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992,

### **ARGYMHELLIR**

Bod symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/2013 ym mhob categori o anheddau yn unol â'r hyn a ddangosir yn Atodiad B.

**Annex B**

**2012/13  
DENBIGHSHIRE COUNCIL COUNCIL**

	<u>COUNTY</u> <u>PRECEPT</u>	<u>COMMUNITY</u> <u>PRECEPT</u>	<u>POLICE</u> <u>PRECEPT</u>	<u>TOTAL</u>	<u>BAND A</u>	<u>BAND B</u>	<u>BAND C</u>	<u>BAND D</u>	<u>BAND E</u>	<u>BAND F</u>	<u>BAND G</u>	<u>BAND H</u>	<u>BAND I</u>
ABERWHEELER	1052.98	11.54	214.56	1279.08	852.72	994.84	1136.96	1279.08	1563.32	1847.56	2131.80	2558.16	2984.52
BETWS G G	1052.98	15.00	214.56	1282.54	855.03	997.53	1140.04	1282.54	1567.55	1852.56	2137.57	2565.08	2992.59
BODELWYDDAN	1052.98	66.67	214.56	1334.21	889.47	1037.72	1185.96	1334.21	1630.70	1927.19	2223.68	2668.42	3113.16
BODFARI	1052.98	16.27	214.56	1283.81	855.87	998.52	1141.16	1283.81	1569.10	1854.39	2139.68	2567.62	2995.56
BRYNEGLWYS	1052.98	19.88	214.56	1287.42	858.28	1001.33	1144.37	1287.42	1573.51	1859.61	2145.70	2574.84	3003.98
CEFN MEIRIADOG	1052.98	13.80	214.56	1281.34	854.23	996.60	1138.97	1281.34	1566.08	1850.82	2135.57	2562.68	2989.79
CLOCAENOG	1052.98	35.01	214.56	1302.55	868.37	1013.09	1157.82	1302.55	1592.01	1881.46	2170.92	2605.10	3039.28
CORWEN	1052.98	26.29	214.56	1293.83	862.55	1006.31	1150.07	1293.83	1581.35	1868.87	2156.38	2587.66	3018.94
CYFYLLIOG	1052.98	25.00	214.56	1292.54	861.69	1005.31	1148.92	1292.54	1579.77	1867.00	2154.23	2585.08	3015.93
CYNWYD	1052.98	11.50	214.56	1279.04	852.69	994.81	1136.92	1279.04	1563.22	1847.50	2131.73	2558.08	2984.43
DENBIGH	1052.98	49.00	214.56	1316.54	877.69	1023.98	1170.26	1316.54	1609.10	1901.67	2194.23	2633.08	3071.93
DERWEN	1052.98	27.91	214.56	1295.45	863.63	1007.57	1151.51	1295.45	1583.33	1871.21	2159.08	2590.90	3022.72
DYSERTH	1052.98	26.73	214.56	1294.27	862.85	1006.65	1150.46	1294.27	1581.89	1869.50	2157.12	2588.54	3019.96
EFENECHTYD	1052.98	14.01	214.56	1281.55	854.37	996.76	1139.16	1281.55	1566.34	1851.13	2135.92	2563.10	2990.28
GWYDDELWERN	1052.98	16.00	214.56	1283.54	855.69	998.31	1140.92	1283.54	1568.77	1854.00	2139.23	2567.08	2994.93
HENLLAN	1052.98	18.00	214.56	1285.54	857.03	999.86	1142.70	1285.54	1571.22	1856.89	2142.57	2571.08	2999.59
LLANARMON YN IAL	1052.98	23.68	214.56	1291.22	860.81	1004.28	1147.75	1291.22	1578.16	1865.10	2152.03	2582.44	3012.85
LLANBEDR D C	1052.98	11.06	214.56	1278.60	852.40	994.47	1136.53	1278.60	1562.73	1846.87	2131.00	2557.20	2983.40
LLANDEGLA	1052.98	21.02	214.56	1288.56	859.04	1002.21	1145.39	1288.56	1574.91	1861.25	2147.60	2577.12	3006.64
LLANDRILLO	1052.98	18.00	214.56	1285.54	857.03	999.86	1142.70	1285.54	1571.22	1856.89	2142.57	2571.08	2999.59
LLANDYRNOG	1052.98	20.73	214.56	1288.27	858.85	1001.99	1145.13	1288.27	1574.55	1860.83	2147.12	2576.54	3005.96
LLANELIDAN	1052.98	20.50	214.56	1288.04	858.69	1001.81	1144.92	1288.04	1574.27	1860.50	2146.73	2576.08	3005.43
LLANFAIR DC	1052.98	9.09	214.56	1276.63	851.09	992.93	1134.78	1276.63	1560.33	1844.02	2127.72	2553.26	2978.80
LLANFERRES	1052.98	19.18	214.56	1286.72	857.81	1000.78	1143.75	1286.72	1572.66	1858.60	2144.53	2573.44	3002.35
LLANGOLLEN TOWN	1052.98	49.26	214.56	1316.80	877.87	1024.18	1170.49	1316.80	1609.42	1902.04	2194.67	2633.60	3072.53
LLANGYNHAFAL	1052.98	7.74	214.56	1275.28	850.19	991.88	1133.58	1275.28	1558.68	1842.07	2125.47	2550.56	2975.65
LLANRHAADR Y C	1052.98	23.90	214.56	1291.44	860.96	1004.45	1147.95	1291.44	1578.43	1865.41	2152.40	2582.88	3013.36
LLANTYSILIO	1052.98	28.40	214.56	1295.94	863.96	1007.95	1151.95	1295.94	1583.93	1871.91	2159.90	2591.88	3023.86
LLANYNYS	1052.98	20.01	214.56	1287.55	858.37	1001.43	1144.49	1287.55	1573.67	1859.79	2145.92	2575.10	3004.28
NANTGLYN	1052.98	28.93	214.56	1296.47	864.31	1008.37	1152.42	1296.47	1584.57	1872.68	2160.78	2592.94	3025.10
PRESTATYN	1052.98	46.85	214.56	1314.39	876.26	1022.30	1168.35	1314.39	1606.48	1898.56	2190.65	2628.78	3066.91
RHUDDLAN	1052.98	27.89	214.56	1295.43	863.62	1007.56	1151.49	1295.43	1583.30	1871.18	2159.05	2590.86	3022.67
RHYL	1052.98	44.97	214.56	1312.51	875.01	1020.84	1166.68	1312.51	1604.18	1895.85	2187.52	2625.02	3062.52
RUTHIN	1052.98	46.46	214.56	1314.00	876.00	1022.00	1168.00	1314.00	1606.00	1898.00	2190.00	2628.00	3066.00
ST ASAPH	1052.98	35.94	214.56	1303.48	868.99	1013.82	1158.65	1303.48	1593.14	1882.80	2172.47	2606.96	3041.45
TREFNANT	1052.98	9.65	214.56	1277.19	851.46	993.37	1135.28	1277.19	1561.01	1844.83	2128.65	2554.38	2980.11
TREMEIRCHION	1052.98	15.19	214.56	1282.73	855.15	997.68	1140.20	1282.73	1567.78	1852.83	2137.88	2565.46	2993.04

Tudalen 21

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>28 Chwefror 2012</b>
<b>Aelod Arwain:</b>	<b>Aelod Arwain – Cyllid ac Effeithlonrwydd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>y Pennaeth Cyllid ac Asedau</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cynigion Cyfalaf a gafwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2012/13.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor craffu, wedi cyfarfod ar nifer o achlysuron dros yr ychydig wythnosau diwethaf i ystyried cynigion a baratowyd gan bob adran.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Cynnwys y prosiectau a ddangosir yn atodiad 1 yng nghynllun cyfalaf 2012/13.

**4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Mae setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13 wedi gostwng 7.8% (£489k) ers 2011/12. Mae hyn yn parhau'r setliadau cyfalaf sâl iawn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn ogystal â hyn, mae grantiau penodol yn y dyfodol yn debygol o gael eu gosod ar lefel is nag yn y gorffennol.

- 4.2 Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor yw dibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu naill ai gwerthu asedau i gynhyrchu derbyniadau neu ddefnyddio Benthycia Darbodus.

- 4.3 Mae'r Cyngor yn anelu at gael gwared ar nifer o safleoedd dros gyfnod tair blynedd yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae cael gwared ar asedau'n gallu bod yn broses araf gyda gwerthoedd yn ansicr ac amseru derbyniadau'n anodd ei ragweld. Mae'r amodau economaidd cyfredol hefyd yn ychwanegu risg pellach a byddant yn rhoi pwysau am i lawr ar werthoedd. At ddibenion yr adroddiad hwn, nid oes dim derbyniadau cyfalaf newydd wedi'u tybio a'r unig gyllid a ddyrannwyd yw'r cyllid hwnnw a gafwyd eisoes.

- 4.4 Mae'r Cyngor hefyd yn cynnwys £1m wrth gefn yn y cynllun cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau y gall ymdopi ag unrhyw amgylchiadau annisgwyl, ac i sicrhau hefyd y gall ymdrin ag unrhyw broblemau gyda phrosiectau penodol sy'n gorwario. Cytunodd y Cyngor ar £500k ychwanegol wrth gefn ar 15 Tachwedd 2011 i ddarparu ar gyfer unrhyw broblemau posibl a ddylai ddigwydd gyda Datblygiad y Foryd. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae unrhyw swm wrth gefn heb ei wario'n cael ei ryddhau'n ôl i gynllun cyfalaf y flwyddyn ganlynol.

Dyma'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2012/13:

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Swm £000</b>
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,934
Benthyca â Chymorth Heb ei Neilltuo	3,820
Benthyca Darbodus – Priffyrdd	3,650
Benthyca Darbodus – Adfywio/Ysgolion	4,000
Derbyniadau Cyfalaf	1,059
Swm Wrth Gefn Heb ei Wario a ddygwyd ymlaen	647
Cronfeydd wedi'u Clustnodi	450
Grant Addysg Llywodraeth Cymru	318
<b>Cyfanswm</b>	<b>15,878</b>
Cyllid sydd eisoes wedi'i ymrwymo	5,230
<b>Cyllid sydd ar gael 2012/13</b>	<b>10,648</b>

- 4.5 Mae'r cyllid sydd eisoes wedi'i ymrwymo yn dod o benderfyniadau blaenorol a wnaed gan aelodau ac mae'n cynnwys:

- Cyfalaf wrth gefn £1.5m.
- Grantiau i fusnesau bach a chanolig £30k.
- Cronfa Wrth Gefn Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif - Arian £200k.
- Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif – Benthyca Darbodus £3.0m.
- Datblygiad y Foryd £500k.

- 4.6 Mae'r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Yn gyntaf, mae prosiectau untro fel ysgol newydd neu ailwampio canolfan hamdden, a'r ail fath o wariant yw 'dyraniad bloc'. Rhaglenni gwaith parhaus yw'r rhain sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (na fyddant efallai'n cael eu cwblhau byth) e.e. cynnal a chadw ysgol. Ceir talu am elfennau o'r gwaith hwn o gyllidebau trwsio a chynnal a chadw ond mae rhan sylweddol yn cael ei hariannu drwy'r cynllun cyfalaf.

### **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

- 4.7 O ystyried bod yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael eu torri'n barhaus, mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi cytuno i wahodd cynigion oddi wrth adrannau yn unol â dyraniadau bloc y cytunwyd

arnynt yn flaenorol. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 16 o gynigion dros nifer o gyfarfodydd. Ni ystyriwyd bod angen cymhwysio mecanwaith sgorio'r Cyngor i'r broses adolygu.

- 4.8 Cyflwynwyd pob cynnig gan bennaeth gwasanaeth. Disgrifir isod rai materion a gododd o'r broses hon:
- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi nodi y bydd buddsoddiad sylweddol yn ofynnol i symud cynigion ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn eu blaenau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. I gefnogi'r fenter hon, ar 7 Chwefror 2012 cymeradwyodd y Cyngor £200k yn rhan o'r broses cyllideb refeniw i gefnogi rhyw £3.0m o wariant cyfalaf drwy Fenthyca Darbodus. Cydnabyddir nad yw'r gwariant hwn yn debygol o ddigwydd tan 2013/14 o leiaf.
  - Gan fod grant o £318k am Addysg gan Lywodraeth Cymru wedi'i gael yn hwyr, ni fu digon o amser i gyflwyno cynigion ar gyfer ei ddefnyddio i'r Grŵp Buddsoddi Strategol. O ystyried bod angen hawlio'r grant erbyn 31 Mawrth 2012, bydd y gwariant cynlluniedig presennol yn 2011/12 yn cael ei ddefnyddio i dynnu'r grant i lawr. Bydd hyn yn rhyddhau £318k i gynllun cyfalaf 2012/13. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi argymhell bod y swm hwn yn cael ei neilltuo i gefnogi cynigion Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn y dyfodol.
  - Yn gynharach yn y flwyddyn, cafodd adran y Prifffyrdd grant am halen ychwanegol. Gan nad oedd angen yr halen hwnnw, cafodd y grant ei gadw'n ganolog. Cynigir defnyddio'r arian hwn (£250k) i ariannu rhaglen i wella goleuadau stryd, gan osod tua 1,650 o unedau newydd i gwtogi ar yr ynni a ddefnyddir ac i ryddhau arbedion cyllideb yn y dyfodol.
  - Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi ystyried y cynnig Cyfalaf Cymunedol a'r cynnig Arian Cyfatebol Adfywio Strategol ac wedi argymhell eu cyfuno a dod â hwy ynghyd â'r cronfeydd blaenoriaeth newydd a ddyrannwyd yn 2011/12 ac yn 2012/13 i gefnogi gweithgarwch tref a chymuned yn y gyllideb refeniw i greu cronfa strategol fwy sy'n gallu cefnogi cynlluniau tref, adfywio a chymunedau. Yn sgil y cyllid ychwanegol hwn, mae perygl y bydd arian yn cael ei wario mewn modd di-drefn. Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwerth gorau posibl o'i fuddsoddiadau. Bydd cynnig ar y ffordd y dylid cydlynu'r cyllid hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau cyn i unrhyw brosiect gael ei ariannu o'r cyllidebau hyn.
  - Mae'r cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau heblaw ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Gwaredu Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd etc. Argymhellir dyrannu £1.725m i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion a £500k i waith cyfalaf cynnal a chadw adeiladau heblaw ysgolion. Argymhellir ymhellach fod y

Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu'r union ddyraniadau i'r gwaith penodol sy'n ofynnol, a hynny yn nhrefn eu blaenoriaeth.

4.9 Mae adran y Priffyrdd wedi cael £100k i gefnogi benthyca darbodus yn rhan o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2012/13. Bydd hyn yn caniatáu tua £1.4m o wariant cyfalaf. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £162k o gyllid refeniw i Sir Ddinbych i ariannu benthyca darbodus a bydd hyn yn cynhyrchu tua £3.65m o waith cyfalaf Priffyrdd. Mae'r olaf yn amodol ar Lywodraeth Cymru'n cymeradwyo achos busnes. Yn ogystal â hyn, cynigir cefnogi £375k o waith lliniaru llifogydd, ailosod unedau a cholofnau goleuadau stryd sy'n beryglus (£100k) ac £1m mewn dyraniad bloc at atgyweiriadau strwythurol ac eraill, gan gynnwys pontydd. Mae hyn yn rhoi £5.3m o gyfanswm rhaglen cyfalaf Priffyrdd a gynigir ar gyfer 2012/13.

4.10 Mae Atodiad 1 yn dangos y prosiectau a restrir gyda'r cyllid a argymhellir i bob un. Mae pob prosiect sy'n cael ei argymhell i'w gymeradwyo yn cael ei ddangos o dan wahanol golofn yn yr atodiad:

- Benthyca Darbodus Priffyrdd – Hwn yw'r £3.65m o fenthyca darbodus i'w gefnogi o'r gyllideb refeniw fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 7 Chwefror 2012.
- Cronfeydd y Cyngor – Cronfeydd yw'r rhain fel grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf, a chronfeydd wrth gefn heb eu gwario. Dim ond am flwyddyn y mae'r cyllid hwn.

4.11 Mae aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol fel a ganlyn:

- Aelod Cabinet Arwain – Cyllid ac Effeithlonrwydd
- Aelod Cabinet Arwain – Moderneiddio'r Cyngor
- Aelod Cabinet Arwain – Adfywio a Thwristiaeth
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu
- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adfywio a Thrawsnewid Busnes
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio

## 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Adolygwyd y prosiectau i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

## 6. **Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

### 6.1 **Goblygiadau Cost**

Dangosir costau'r cynlluniau yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hwn wedi'i esgusodi ar hyn o bryd rhag ei ddatgelu i'r cyhoedd, a hynny yn rhinwedd paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu talu drwy gyllideb refeniw 2012/13.

## 6.2 **Goblygiadau Staff/TG/Ystafelloedd**

Mae gofyn i bob prosiect newydd lenwi ffurflen Cynnig Prosiect neu Achos Busnes ac mae unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod bryd hynny.

## 6.3 **Asesu Effaith ar Newid Hinsawdd – Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, os yw'n berthnasol, allyriadau tunelli metrig carbon cyn y prosiect ac ar ôl y prosiect, gan nodi felly a yw'r prosiect yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral o ran allyriadau carbon. Hefyd, mae'n angenrheidiol i sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn addas ar gyfer y dyfodol a'u bod yn gallu addasu i newid hinsawdd.

Bydd defnyddio mwy/llai o gyfarpar TG yn effeithio ar gostau trydan a chost carbon. Mae carbon a allyrrir o bortffolio eiddo'r Cyngor yn gywerth â mwy na 70% o holl ôl troed carbon y Carbon.

## 7. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1 Cyflwynodd y Penaethiaid Gwasanaeth y cynigion. Mae cynrychiolwyr y Cabinet a Phwyllgorau Craffu wedi bod yn rhan o'r broses.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, ac mae copïau caled o gynigion wedi'u gosod yn ystafell yr Aelodau a chynigion prosiect ar gael i'w gweld ar gronfa ddata'r Aelodau.

Mae'r Cabinet wedi argymhell cymeradwyo'r cynigion.

## 7.2 **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi'n briodol yn ei asedau. A gwerth real cyllid Llywodraeth Cymru'n dal yn lleihau, gorfodir y Cyngor i ddibynnu mwyfwy ar ei adnoddau ei hun.

## 8. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

### 8.1 **Risgiau cysylltiedig â pheidio â chytuno i'r argymhellion**

Byddai'r risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau'n methu â gwneud cynnydd, colli grantiau ac aflonyddu ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau'n parhau i waethygu heb fuddsoddiad ynddynt, a gallai hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

### 8.2 **Risg cysylltiedig â chytuno i'r argymhellion**

Mae i bob prosiect cyfalaf ei risg. Fodd bynnag, adolygir pob cynllun gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac mae hefyd yn destun adroddiadau a monitro misol parhaus.

## 9. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor</b>
<b>Swyddogion/Aelodau Arwain:</b>	<b>Bwrdd Prosiect Adolygu Craffu</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Alan Smith, Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adolygu'r system graffu newydd</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>28 Chwefror 2012</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. Casgliadau adolygiad o'r system graffu newydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2011.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1. Pan bleidleisiodd y Cyngor dros newid y ffordd yr oedd gwaith craffu'n cael ei drefnu yn y Cyngor ym mis Chwefror 2011, cytunwyd y dylid adolygu'r system newydd ymhen y deuddeg mis cyntaf. Cytunwyd ar hyn fel y gellid rhoi newidiadau pellach ar waith, petai eu hangen, mewn pryd i'r Cyngor newydd ym mis Mai 2012.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau bod y strwythur newydd am barhau yn ei ffurfwedd gyfredol.
- 3.2. Bod Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael ei addasu fel y cynigir ym mharagraff 12.4 o'r adroddiad hwn.
- 3.3. Bod hyfforddiant i'r Aelodau am y system graffu'n cael ei gynnwys yn y rhaglen gynefino i'r Cyngor newydd.

## **4. Cefndir**

- 4.1. Ar 8 Chwefror 2011, cytunodd y Cyngor i newid y ffordd y mae'r system Graffu'n cael ei threfnu. Penderfynwyd:

*"Bod tri phwyllgor â 'thema' yn cymryd lle'r pedwar pwyllgor craffu a oedd yn seiliedig ar gyfarwyddiaethau. Y pwyllgorau newydd fyddai Partneriaethau, Cymunedau a Pherfformiad."*

- 4.2. Roedd y penderfyniad hwn yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r system graffu gan Aelodau ac roedd yn rhan allweddol o'r broses o foderneiddio'r Cyngor. Roedd y broses hon yn cynnwys newidiadau sylweddol yn y modd y trefnir y Cyngor; newidiadau yn yr uwch dîm

rheoli a sefydlu nodau clir ar gyfer gwelliant. Y bwriad oedd moderneiddio craffu drwy droi cefn ar y system a oedd yn seiliedig ar gyfarwyddiaethau gan nad oedd mwyach yn adlewyrchu trefniadaeth y Cyngor a theimlwyd ei bod yn annog meddwl 'ar wahân'.

- 4.3. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn hefyd fod angen newid er mwyn i'r Cyngor moderneiddio, gan ddweud: *'Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei gynlluniau ymhellach i symleiddio'r broses benderfynu a chraffu i sicrhau bod rolau'n glir a bod amser yn cael ei roi i'r materion sy'n cael eu hystyried y rhai pwysicaf'*.
- 4.4. Daeth y materion yn sail i'r newid o weithdy ym mis Ebrill 2010, pan oedd yr Aelodau wedi teimlo'n gryf y gellid defnyddio eu hamser a'u hegni'n well petai ffocws y cyfarfodydd craffu'n well. Roedd yr Aelodau'n poeni hefyd nad oedd meysydd allweddol – yn arbennig perfformiad y cyngor a phartneriaethau – yn destun craffu priodol.
- 4.5. Yn ogystal â'r angen i ganolbwyntio ar bartneriaethau ac ar berfformiad, deilliodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau newydd hefyd o'r broses hon, er mwyn creu fforwm i faterion cymuned gyfan i ffwrdd o gyfyngiadau craffu ar sail gwasanaeth. Roedd y Cyngor yn awyddus i'r pwyllgor hwn yn arbennig ddatblygu cysylltiadau cryf â'r Grwpiau Ardal Aelod a oedd yn esblygu a'r cyfleoedd a gynigient i ddod â dadl a materion lleol i'r system.
- 4.6. Roedd yr Aelodau am fod yn siŵr y byddai'r newidiadau yn y gwaith craffu yn effeithiol, felly trefnwyd adolygiad i archwilio hyn. Er na fyddai'r system wedi bod ar waith am flwyddyn gron erbyn i'r adolygiad ddigwydd, teimlwyd ei bod yn bwysig adrodd amdani cyn ethol y Cyngor newydd ym mis Mai 2012. Y grŵp Aelodau/Swyddogion a ddatblygodd y cynigion gwreiddiol a gafodd y dasg o adolygu'r system newydd, a dechreuwyd y gwaith hwn ym mis Hydref 2011.
- 4.7. Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar amcanion gwreiddiol mabwysiadu'r system newydd a'r materion a gododd yr Aelodau yn broblemau posibl yn ystod y ddadl, gyda'r bwriad o roi'r rhain ar brawf. Y dull fu:
  - Deall barn y bobl sy'n ymwneud â Chraffu; Aelodau; Swyddogion; Uwch Reolwyr; aelodau cyfetholedig a phartneriaid;
  - Cymharu'r rhaglenni gwaith o dan y system newydd â'r rhaglenni gwaith o dan yr hen system.
  - Canfod barn ein rheolyddion.
- 4.7. Er mwyn deall barn pobl, rydym wedi:
  - Dosbarthu holiadur i'r holl Aelodau, yn ogystal â chynnal trafodaethau wyneb yn wyneb â rhai a oedd wedi codi pryderon arbennig.
  - Cyfarfod â'r aelodau cyfetholedig addysg;

- Ymgynghori â phartneriaid allweddol;
  - Gofyn i'r swyddogion a aeth ag adroddiadau at bwyllgor am eu barn
  - Trafod y system newydd â Phenaethiaid Gwasanaeth.
- 4.8. Roedd yr Aelodau'n awyddus i gyfranogi ac maent wedi dangos gwir ymroddiad drwy gydol y broses Graffu, gan gyfrannu ystod gyfan o syniadau a sylwadau cadarnhaol at yr adolygiad. Ymatebodd 31 o Aelodau i'r holiadur<sup>1</sup> a bu rhai'n rhoi o'u hamser i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd.
- 4.9. Roedd yr amrywiaeth o sylwadau Aelodau a'r amryw ymatebion gan bob ochr yn arwydd o'r nifer o faterion dan sylw. Mae'r dasg o adolygu'r system newydd yn amlwg yn fwy cymhleth na dim ond gofyn y cwestiwn: *'A ydy'r system newydd yn well na'r hen un neu beidio?'* Penderfynodd yr Aelodau ym mis Chwefror 2011 nad oedd yr hen system yn addas at ddiben rhagor ac felly nid yw'n opsiwn dychwelyd iddi. Mae'r adolygiad wedi ceisio ymdrin â'r cymhlethdod hwn drwy archwilio'r materion a godwyd yn y ddadl hon a cheisio profi a gyflawnwyd yr hyn yr oedd yr Aelodau am ei newid.
- 4.10. Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori canlyniadau'r gwaith hwnnw, gan gynnwys llawer o'r syniadau a gynigiwyd gan yr Aelodau ac mae'n archwilio'r materion allweddol yn eu tro.

## **5. A ydy'r Aelodau'n cael digon o gymorth a gwybodaeth i graffu'n effeithiol?**

- 5.1. Roedd hwn yn fater pwysig wrth ddadlau ynghylch y system newydd. Roedd yr Aelodau am sicrhau, petaent yn troi cefn ar system a oedd yn craffu ar 'bopeth' i system â mwy o ffocws a geisiai edrych ar y meysydd pwysig yn unig, fod ganddynt ddigon o wybodaeth a chymorth i wybod ar beth i ganolbwyntio. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan swyddogion, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Corfforaethol, ac adroddiadau a gwybodaeth a ddarperir gan Benaethiaid Gwasanaeth a chan y Cydlynedd Craffu.
- 5.2. Gofynasom i'r Aelodau a oeddent yn credu eu bod yn cael digon o wybodaeth a chymorth i wneud eu gwaith ac roedd y rhan fwyaf yn amlwg yn credu eu bod (roedd 16 allan o 31 yn cytuno, 6 yn anghytuno a 9 heb gytuno nac anghytuno). Mae'n gam cyntaf allweddol fod yr Aelodau'n cael y lefel gywir o gymorth ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf er mwyn Craffu'n effeithiol. Roedd yr Aelodau'n cydnabod hyn yn y Cyngor ym mis Chwefror 2011, ac felly ers hynny mae'r swyddogion wedi cymryd camau i wella'r math a'r lefel o wybodaeth sydd ar gael i'r Aelodau, yn arbennig ar faterion perfformiad (o Ffynnon er enghraifft).

---

<sup>1</sup> Gweler Atodiad 1 am ganlyniadau'r 7 cwestiwn

- 6. A ydy'r System Craffu newydd wedi gallu craffu ar yr hyn sy'n bwysig?**
- 6.1. Hwn oedd un o nodau allweddol y system newydd; gan ymateb i ddymuniad yr Aelodau i ganolbwyntio eu hamser lle gallent ychwanegu'r gwerth mwyaf. Gofynasom i'r aelodau a oeddent yn teimlo bod hyn wedi gweithio: roedd 12 yn cytuno, 11 yn anghytuno ac 8 heb gytuno nac anghytuno. Felly er bod ychydig yn rhagor yn credu bod yr agwedd hon ar y system newydd yn gweithio, mae'n amlwg nad yw pawb yn siŵr eto.
- 6.2. Roedd rhai Aelodau'n fwy cyffyrddus â'r hen system am eu bod yn teimlo ei bod yn gliriach, ac roedd eraill yn teimlo bod y system newydd yn craffu ar feysydd nad oeddent wedi cael sylw priodol o'r blaen. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y system newydd yn rhoi llun llawer ehangach i'r Aelodau o'r hyn sy'n digwydd yn y Cyngor, er bod rhai'n teimlo bod hyn yn gwneud craffu'n anoddach. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod cynnydd wedi'i wneud:
- Mae gwaith craffu ar berfformiad bellach yn mynd i'r afael ag eitemau 'corfforaethol' pwysig na fyddent wedi cael lle ffurfiol yn yr hen system ond sy'n feysydd allweddol i'r Cyngor: mae Perfformiad Corfforaethol; Perfformiad Prosiectau; Rheoli Risg, y Cynllun Corfforaethol a'r broses gosod cyllideb yn enghreifftiau i gyd.
  - Mae'r blaenraglenni gwaith Craffu yn dangos symudiad i batrwm gwaith â mwy o ffocws, gyda llai o'r eitemau ailadrodd a'r 'diweddariadau' a oedd yn broblem go iawn yn yr hen system.
  - Erbyn hyn mae mwy o adroddiadau 'gwybodaeth' yn cael eu cylchredeg y tu allan i'r cyfarfodydd. Er nad yw'r rhain yn gofyn penderfyniad gan yr Aelodau, byddai llawer ohonynt serch hynny wedi bod yn rhan o'r agenda o'r blaen.
  - Mae Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn fwy effeithiol bellach o ran sicrhau bod yr eitemau sy'n mynd at y pwyllgor craffu'n adlewyrchu 'mater' go iawn a'u bod yn cael eu cydlynu ar draws y tri chynllun gwaith.
- 6.3. Pan holasom y Penaethiaid Gwasanaeth am y system newydd, roeddent yn teimlo bod perfformiad Gwasanaeth a pherfformiad Cyngor yn cael lefel lawer mwy priodol o sylw nag oeddent o dan yr hen system. Yn arwyddocaol, roedd yr uwch reolwyr yn teimlo eu bod bellach yn atebol i grŵp llawer ehangach o Aelodau nag o'r blaen, a bod mwy o Aelodau'n clywed am faterion Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol nag oedd o dan y system flaenorol.
- 6.4. Un awgrym a gafwyd gan yr Aelodau oedd bod posibilrwydd gwella'r system yn fwy byth wrth i'r Pwyllgor Craffu ddechrau defnyddio system risg strategol newydd y Cyngor. Gallai hyn alluogi'r Pwyllgor Craffu i fonitro meysydd risg uchel yn agos.

- 6.5. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud o hyd i sicrhau bod pynciau Craffu bob amser yn canolbwyntio ar 'faterion' clir. Nod craidd Craffu yw sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu gwella drwy oruchwylio effeithiol, ac felly mae gwybodaeth syml, gywir er mwyn dewis pynciau â ffocws yn allweddol. Gall swyddogion sy'n cefnogi gwaith craffu chwarae rhan fwy gweithgar mewn cefnogi aelodau yma, fel y gallai Penaethiaid Gwasanaeth.
- 6.6. Gan fod y system newydd yn ymdrin â materion sy'n trawstorri, mae dyraniad pynciau'n llai clir ac roedd rhai Aelodau'n dal yn cael y system newydd yn ddryslyd wrth ystyried pa Bwyllgor Craffu ddylai edrych ar ba fater. Eto, gan fod y system yn gymharol newydd o hyd, nid yw hyn yn syndod efallai. Mae angen bod mwy o gymorth ar gael yn y maes hwn hefyd, fel bod yr Aelodau'n teimlo'n hyderus am ddefnyddio'r system newydd. Dylai hyn fod yn elfen allweddol o'r hyfforddiant cynefino i Aelodau yn y Cyngor newydd.

## 7. A oes unrhyw faterion pwysig wedi'u 'diystyru'?

- 7.1 Pan benderfynodd yr Aelodau fabwysiadu'r system graffu newydd, roeddent yn poeni y gallai pynciau pwysig gael eu diystyru os nad oeddent wedi cael y trefniadau newydd yn gywir. Pan ofynasom iddynt yn yr holiadur, dywedodd mwyafrif helaeth yr aelodau nad oeddent yn gwybod a oedd unrhyw beth wedi'i ddiystyru neu beidio (roedd 9 yn credu ei fod, roedd 5 yn credu nad oedd, ac roedd 17 heb gytuno nac anghytuno).
- 7.2. Yn amlwg, mae'r Aelodau am sicrhau bod y system newydd yn gweithio, ond mae'n debyg na fu dim achos go iawn i boeni am yr agwedd hon ar y newid. Mae archwilio cynlluniau gwaith y tri phwyllgor<sup>2</sup> yn arddangos bod y Pwyllgor Craffu'n ystyried sbectwm eang ac amrywiol ar draws yr ystod gyfan o bynciau. Yn wir, aeth pob phwyllgor ati ar ddechrau'r flwyddyn i gynllunio'r meysydd yr oedd am ymdrin â hwy ac mae wedi edrych yn fanwl ar brif feysydd gwasanaeth ers hynny.
- 7.3. Mewn gwirionedd, mae Craffu wedi ymdrin â rhestr hir o faterion pwysig yn y misoedd ers i'r system newydd ddechrau, gan gynnwys: Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Garrif; Harbwr y Foryd; gwasanaethau Cefnogi Pobl; Amddiffyn Oedolion; Comisiynu Rhanbarthol; Priffyrdd a Gwasanaethau Gofal i Bobl Hŷn. Mae gofyn bellach hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu hadnabod ar gyfer craffu posibl.
- 7.4. Yn galonogol, ni nododd yr Aelodau ddim enghreifftiau o faterion 'a ddiystyrwyd'. Mae'n debyg bod Aelodau'n poeni y *gallent* golli rhywbeth yn hytrach nag eu bod mewn gwirionedd *wedi* colli rhywbeth. O ystyried nad yw'r system newydd ond wedi bod ar waith ers mis Mai,

---

<sup>2</sup> Gweler Atodiad 2

mae'n ddigon tebyg ei bod yn rhy gynnar i fod yn gwbl siŵr, ond hyd yma dywed y dystiolaeth nad yw materion pwysig yn cael eu diystyru.

## **8. A ydy'r strwythur newydd wedi gwella'r modd o graffu ar Bartneriaethau ac ar Berfformiad?**

- 8.1. Craffu'n well ar y ddau faes allweddol hyn oedd un o nodau canolog y strwythur newydd. Bu gwella perfformiad yn rhan allweddol o ddatblygu Sir Ddinbych yn Gyngor Uchel ei Berfformiad ac mae parhau i reoli perfformiad yn effeithiol yn rhan allweddol o gynnal y sefyllfa honno. I'r un graddau, mae partneriaethau'n rhan hanfodol o'r amgylchedd allanol i'r Cyngor, a bydd hynny'n fwy gwir byth yn y dyfodol yn llofnodwyr i'r Compact gyda'i ymrwymadau i waith rhanbarthol.
- 8.2. Cyflwynodd yr Aelodau'r ddau bwyllgor newydd hyn oherwydd teimlwyd nad oedd y naill faes na'r llall yn destun craffu effeithiol dan yr hen system. Gofynasom i'r Aelodau a oeddent yn credu bod craffu ar Bartneriaethau a Pherfformiad wedi gwella: roedd 12 o aelodau'n credu ei fod wedi gwella, roedd 8 yn credu nad oedd ac nid oedd 11 yn cytuno nac yn anghytuno.
- 8.3. Roedd Uwch Reolwyr yn credu bod craffu ar berfformiad wedi gwella'n fawr ers yr hen system. Ers adnabod aelodau craffu 'arwain' ar gyfer pob gwasanaeth, teimlwyd bod bellach llawer mwy o gyfle i'r aelodau gael gwybod yn llawn am berfformiad gwasanaethau.
- 8.4. Roedd partneriaid yn teimlo hefyd fod craffu ar Bartneriaethau wedi gwella, gydag un partner yn dweud: "...mae'r system yn well yn yr ystyr ei bod yn rhoi gwell dealltwriaeth i Gynghorwyr am faterion partneriaeth, sy'n gallu bod yn wahanol iawn i faterion gwasanaeth." Dywedodd partneriaid iechyd fod eu profiad o graffu wedi bod yn wael weithiau yn y gorffennol, ond bod y dull a fabwysiadwyd yn y pwyllgor craffu Partneriaethau hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.
- 8.5. Er ei fod wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â phartneriaid lleol, ni fu'r pwyllgor Craffu Partneriaethau yn gallu gwneud cymaint o gynnydd ag y gobeithiwyd o ran ymgysylltu â phartneriaethau rhanbarthol, ac mae angen mwy o waith ar y maes hwn. Un rhan o'r broblem yw nad yw strwythurau rhanbarthol partneriaethau strategol wedi datblygu'n llawn o hyd. Fodd bynnag, mae cydbwyllgor â Chonwy eisoes wedi'i sefydlu a rhaglen waith wedi'i datblygu.

## **9. A ydy'r system newydd yn gwneud y mwyaf o arbenigedd yr aelodau?**

- 9.1. Mae'r strwythur newydd wedi canolbwyntio ar faterion mewn gwahanol ffordd i'r hen ddull a oedd yn seiliedig ar wasanaeth, gan roi trosolwg llawer mwy cynhwysfawr i'r aelodau ar gynnydd y Cyngor. Mae'r blaenraglenni gwaith yn arddangos hyn:

Mae'r **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** wedi ystyried, ymhlith pethau eraill:

- Gwasanaethau Iechyd
- Trosedd ac anrhefn
- Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
- Strategaeth Gwastraff Rhanbarthol
- Diogelu

Mae'r **Pwyllgor Craffu Perfformiad** wedi ystyried pynciau gan gynnwys:

- Adolygu Asedau'r Cyngor
- Effaith yr adnoddau ychwanegol a roir i ysgolion
- Strategaeth TG
- Trefniadau ar gyfer arolygiad Estyn
- Adolygiad o Berfformiad Blynyddol

Mae'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau** wedi cael yr ystod ehangaf o bynciau a bu'n gallu dod â golwg 'cymuned gyfan' iddynt. Er enghraifft:

- Risgiau llifogydd
- Rheoli safleoedd carafanau
- Adolygu ysgolion yng nghwm Dyfrdwy
- Torri porfa ymyl ffordd
- Darparu gofal dydd yng Ngogledd Sir Ddinbych
- Darpariaeth hamdden

- 9.2. Serch hynny, roedd rhai Aelodau'n poeni am hyn, yn enwedig y rheini a oedd wedi gwasanaethu o'r blaen ar bwyllgor a oedd yn cyd-fynd â'u diddordeb arbennig: Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg er enghraifft. Yn fwy penodol, gan fod y system newydd yn seiliedig ar themâu, roedd rhai'n poeni y byddai'r rhain yn rhy fras i'r Aelodau ddefnyddio unrhyw arbenigedd sydd ganddynt. Mae eraill wedi ystyried bod y newid yn gyfle, gan ddweud bod craffu ar Berfformiad yn gyfle iddynt ddefnyddio eu sgiliau eu hunain o'r byd busnes. Felly holasom yr Aelodau a oeddent yn credu bod y strwythur newydd yn defnyddio ac yn datblygu arbenigedd yr aelodau: roedd 11 yn credu ei fod, roedd 8 yn credu nad oedd ac nid oedd barn gan 12.
- 9.2. Mae gan y system newydd y fantais hefyd o ddefnyddio arbenigedd Aelodau at ystod ehangach o faterion. Er enghraifft, mae arbenigedd mewn hygyrchedd, neu faterion pobl hŷn, yn berthnasol i graffu ar holl wasanaethau'r Cyngor, nid Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.
- 9.3. Wrth fynd ymlaen, mae angen bod yr Aelodau'n gallu deall a chraffu ar y Cyngor o safbwynt corfforaethol, a bydd hyn yn anochel yn cynnwys datblygu meysydd newydd o arbenigedd a diddordeb. Dylid cofio y cafodd y system graffu ei newid yn union am nad oedd mwyach yn adlewyrchu strwythur mewnol y Cyngor na'r amgylchedd allanol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

## **10. Beth fu'r effaith ar yr 'aelodau cyfetholedig' Addysgol?**

- 10.1. Roedd hwn yn peri gofid o'r cychwyn, gan fod y system newydd yn ymddangos fel petai y byddai'n eu rhoi dan anfantais. Ar yr un pryd, mae eu cyfraniad yn bwysig iawn i'r Cyngor, ac mae'n ofynnol gan statud. Cyfarfu'r grŵp adolygu â'r aelodau cyfetholedig (roedd 3 allan o'r 5 yn gallu dod) i gael eu barn. Roeddent yn teimlo nad oedd y system newydd wedi gweithio'n dda iddynt hwy; bu'n rhaid weithiau iddynt fynd i fwy nag un cyfarfod y mis, ac nid yr eitem addysg oedd y cyntaf ar yr agenda bob tro. Roeddent yn teimlo ei bod yn anodd iddynt 'ddilyn' y gwaith craffu ar addysg drwy'r system newydd.
- 10.2. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod pam oedd y Cyngor am newid pethau, ac yn teimlo ei bod yn gadarnhaol bod grŵp llawer ehangach o Aelodau bellach yn agored i faterion addysg nag o'r blaen. Roeddent yn teimlo y byddai'n rhesymol o syml gwella pethau a gofynasant am: flaenraglen waith addysg ar draws y tri phwyllgor i gyd; cydlynu'r eitemau addysg yn well ar draws agendâu'r pwyllgorau a gwell gwybodaeth am berfformiad addysg (gan gynnwys cael at gronfa ddata Ffynnon a 'Moodle' Addysg). Mae'r trefniadau newydd hyn ar waith erbyn hyn a dylent wella'r system yn sylweddol.

## **11. Sut mae'r system newydd wedi ymdopi â'r baich gwaith?**

- 11.1. Fis Chwefror y llynedd, roedd yr Aelodau'n poeni na fyddai amser efallai i ymdrin â phob pwnc, gan fod y pwyllgorau'n gostwng o 4 i 3 ac am fod y cyfarfodydd eisoes yn llai aml ar ôl gostwng o bob pedair wythnos i bob chwe wythnos. Mae'r tri phwyllgor wedi cadw i raddau helaeth at fwyafswm o 4 eitem ar bob agenda ac maent wedi ymdrin â'r un nifer o bynciau ar y cyfan ag oedd y 4 pwyllgor blaenorol, ond maent wedi cael trafferth serch hynny i gael amser i'r holl faterion y maent am eu trafod. Mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn arbennig wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ychwanegol. Mae'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi dechrau cyfarfodydd chwarterol ar y cyd â Chonwy i drafod meysydd gwasanaeth a rennir. Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau restr o bynciau 'strategol' yr hoffai eu hystyried ond nad yw wedi cael amser eto i'w hystyried. Mae'r cyfarfodydd ychwanegol hyn yn rhoi tipyn o bwysau ar y staff cefnogi y gelwir arnynt i'w trefnu a'u cofnodi.
- 11.2. Fodd bynnag, pan holasom yr Aelodau am amllder cyfarfodydd, dywedodd 18 eu bod yn credu bod y cyfarfodydd yn ddigon aml; dywedodd 12 y dylent fod yn amlach ac nid oedd un ateb ydydd yn siŵr. Roedd y swyddogion yn teimlo'n gyffredinol hefyd fod y cyfarfodydd yn ddigon aml ac yn poeni y byddai rhagor yn ychwanegu'n ddianghenraid at eu baich gwaith.
- 11.3. Mae'n bosibl ei bod yn ymddangos bod gormod o eitemau gan nad yw'r system wedi 'setlo' eto, neu efallai bod diffyg lle go iawn. Gellid dadlau y dylai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn arbennig gyfarfod yn fwy aml, gan ei fod yn amlwg yn ysgwyddo amrywiaeth o faterion 'corfforaethol'

ychwanegol. Nid yw amseru cyfarfod y pwyllgor hwn wedi gweithio'n dda chwaith gyda'r amserlen ar gyfer adrodd am berfformiad, sy'n chwarterol.

- 11.4. Serch hynny, os nad yw'r Aelodau am weld cyfarfodydd amlach, efallai mai'r ateb yw defnyddio mwy o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn ogystal â'r cysylltiadau â Grwpiau Ardal Aelod. Nid yw'r naill gyfleuster na'r llall wedi'i ddefnyddio llawer yn y system newydd hyd yma, a'r unig eithriad yw Grŵp Gorchwyl a Gorffen Estyn a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad. Cwblhaodd y grŵp hwn ddarn defnyddiol o waith i gefnogi'r arolygiad sydd ar ddod ac mae'n fodel posibl i'r pwyllgorau reoli eu beichiau gwaith yn well.
- 11.5. Er bod lle yn y system newydd yn broblem o hyd am y tro, mae'r grŵp adolygu'n teimlo na ddylid newid amllder cyfarfodydd ar hyn o bryd, gan nad yw'r sefyllfa tymor hir yn glir eto.
- 11.6. Mae'r system graffu newydd hefyd wedi cynyddu nifer yr Aelodau ar bob pwyllgor o 9 i 11 fel y gallai pob Aelod gael lle o hyd er bod nifer y pwyllgorau wedi gostwng. Holasom yr Aelodau yn yr holiadur a oeddent yn teimlo bod hwn yn newid er gwell. Dywedodd y mwyafrif helaeth eu bod, gyda 22 yn cytuno, 3 yn anghytuno a 6 heb fod yn cytuno nac yn anghytuno.

## **12. Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion**

- 12.1. Bwriadwyd i'r grŵp hwn fod yn elfen hanfodol o'r system newydd, er mwyn cydlynu cynlluniau gwaith a phynciau craffu yn effeithiol, yn ogystal â rheoli'r cysylltiadau â Grwpiau Ardal Aelod. Dim ond i ryw raddau y bu hyn yn effeithiol, gan fod y tri phwyllgor wedi gosod eu cynlluniau gwaith eu hunain i raddau helaeth. Yn fwy na thebyg, mae wedi ysgwyddo ystod rhy eang o dasgau hefyd, ac ar adegau'n gweithredu'n debycach i bwyllgor go iawn, gyda'r holl anghenion cymorth a ddaw yn sgil hynny.
- 12.2. Mae'r dasg o reoli dyraniad pynciau newydd wedi gweithio'n dda serch hynny, ac mae wedi dangos gallu'r system newydd i ymateb i eitemau brys 'llosg' (Harbwr y Foryd). Datblygwyd cysylltiadau â'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gellid eu cryfhau ymhellach trwy ychwanegu ei flaenraglen waith at agenda'r cyfarfod. Anogwyd aelodau'r cyhoedd i gyflwyno awgrymiadau o eitemau i graffu arnynt drwy gyhoeddi taflen '*Scrutiny @ Denbighshire*', ac mae hyn wedi dwyn rhai canlyniadau. Mae rhagor i'w wneud i fagu cysylltiadau â'r Grwpiau Ardal Aelod fodd bynnag, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r grŵp wrth fynd ymlaen.
- 12.3. Gellid gwella hefyd y cyswllt rhwng cynlluniau gwaith Craffu a blaenraglen waith y Cabinet a chynigir bod cynllun gwaith y Cabinet yn dod yn eitem agenda sefydlog yng nghyfarfod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion. Byddai hyn yn cryfhau gallu'r Pwyllgorau Craffu i fonitro

eitemau sy'n mynd i'r Cabinet a'i allu i ddal yr adran weithredol yn atebol.

- 12.4. Mae cyfansoddiad cyfredol y pwyllgor yn cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu, cadeirydd ac is-gadeirydd Llywodraethu Corfforaethol a chadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor. Bydd gan y pwyllgor rôl bwysig o hyd yn y strwythur newydd, ond o ystyried bod angen canolbwyntio adnoddau ar y tri phrif bwyllgor Craffu, cynigir 'teneuo'r' pwyllgor fel y mae. Dylai prif ffocws y grŵp fod ar gydlynu'r rhaglen graffu, gyda chyfarfodydd byrrach a mwy trefnus a ddylai wella effeithiolrwydd a hefyd cwtogi ar yr effaith weinyddol. Ar ôl mis Mai, unig aelodau'r grŵp cydlynu hwn ddylai fod cadeirydd pob Pwyllgor Craffu yn ogystal â chadeirydd Llywodraethu Corfforaethol, gydag is-gadeiryddion yn cymryd eu lle yn ôl yr angen.

### **13. Barn Swyddfa Archwilio Cymru**

- 13.1. Dyma ddeddoliad o Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, ac mae'n cyfeirio at y gwaith maes a wnaethpwyd gan y rheolyddion yn ystod hydref 2011.

*Rhodddwyd y trefniadau craffu newydd hyn ar waith ym mis Mai 2011 ac o ganlyniad mae'n rhy gynnar barnu a ydynt wedi llwyddo. Serch hynny, er bod rhai "problemau torri dannedd" gyda'r trefniadau newydd, rydym yn ystyried eu bod yn gadarn eu sail a'u bod yn datblygu'n foddhaol, am y rhesymau canlynol.*

- *Mae'r newid o graffu â ffocws ar 'wasanaeth' i ffocws mwy trawstorri / ehangach yn cyd-fynd â'r dull corfforaethol cyffredinol a'r newidiadau yn y strwythur rheoli.*
- *Mae cynghorwyr wedi chwarae rhan sylweddol mewn llywio'r dull craffu newydd ac mae llawer o gynghorwyr (gan gynnwys cadeiryddion craffu) wedi ymrwymo i'w wneud yn llwyddiant.*
- *Mae'r Cyngor eisoes wedi cynllunio adolygiad o'r trefniadau newydd, sydd am adrodd ym mis Mawrth 2012. Mae angen i'r Cyngor gydnabod bod trefniadau craffu'n cymryd cryn amser i ymsefydlu ac arddangos effaith.*
- *Mae'r broses ar gyfer adnabod a dewis eitemau gwaith craffu wedi'i datblygu gan gynghorwyr a swyddogion ac mae'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion. Mae'r broses yn gadarn yn yr ystyr ei bod wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau corfforaethol.*
- *I fynd i'r afael â cholled bosibl "arbenigedd cynghorwyr" o dan y trefniadau newydd, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi rhoi rôl arweiniol i feysydd gwasanaeth penodol i aelodau unigol i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn cynnal arbenigedd. Hefyd, roedd y broses adolygu gwasanaeth a'r broses herio bob dwy flynedd yn cynnwys cynghorwyr yn yr adolygiadau gwasanaeth unigol, er mwyn iddynt ddatblygu arbenigedd.*

- *Mae'r wybodaeth a roddir i'r pwyllgorau craffu mewn fformat safonol ac o ansawdd da.*
- *Gellid gwella ansawdd y cwestiynau a ofynnir gan rai Aelodau Pwyllgor i sicrhau bod eu cwestiynau'n canolbwyntio'n gysonach ar y materion cywir, a'u bod yn gryno ac yn holgar.*

## 14. Crynodeb

- 14.1. Bu'r system newydd ar waith ers mis Mai 2011 ac er bod y rhesymau dros wneud adolygiad mor fuan wedyn yn ddealladwy, mae'n ddigon tebyg nad ydym eto wedi gweld llawn fudd y newid. Er hyn, mae arwyddion clir o gynnydd, sy'n amlwg o gynlluniau gwaith y pwyllgorau; o farn yr uwch swyddogion, ein rheolyddion a'n partneriaid. Hyd yn oed ar ôl amser mor fyr, ar y cyfan, mae'r Aelodau'n fwy cadarnhaol na negyddol ar bron bob mater.
- 14.2. Nid yw hyn i ddweud nad yw rhai Aelodau wedi cael y trawsnewid yn anodd, ond mae'n debygol y bydd y teimlad hwn yn pylu wrth i arbenigedd a chynefindra dyfu. Yn wir, nid oes arwydd o effaith negyddol ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu, gyda'r presenoldeb yn gwella mewn gwirionedd yn ystod 6 mis cyntaf y system newydd o'i gymharu â 6 mis olaf yr hen un. I'r ychydig a hoffai ddychwelyd i'r hen system, mae'n anodd gweld sut byddai hyn yn helpu'r Cyngor i barhau i wella.
- 14.3. Ond mae'n amlwg bod angen i rai pethau fod yn well, yn arbennig:
- **Dyrannu pynciau:** bydd yr hyfforddiant ychwanegol arfaethedig i Aelodau yn helpu gyda hyn, a'r cymorth cynyddol gan Benaethiaid Gwasanaeth;
  - **Cysylltiadau â'r Grwpiau Aelod Ardal** – dylai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, gyda chymorth y Grŵp Cydlyn Cadeiryddion, ystyried y ffordd o wella'r rhain, efallai drwy grŵp Gorchwyl a Gorffen
  - **Effeithiolrwydd grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion** – dylai'r cynigion yn yr adroddiad ar gyfer adolygu strwythur y grŵp a gwneud y cyfarfodydd yn fwy 'trefnus' wella hyn.
  - **Trefniadau i'r aelodau cyfetholedig addysg;** mae eu hawgrymiadau ar gyfer gwelliant eisoes ar waith, ond bydd yn bwysig monitro effaith y newidiadau hyn i sicrhau eu bod yn ddigonol.
- 14.4. Y pethau hyn yw'r 'problemau torri dannedd' y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n sôn amdanynt, ac nid ydynt yn broblem sylfaenol gyda'r strwythur newydd. Efallai hefyd yr ystyrir y strwythur newydd yn ystod Arolygiad Estyn, a byddai hefyd angen ystyried unrhyw argymhellion canlyniadol.
- 14.5. Mae'r Grŵp Adolygu Prosiect yn credu, o ystyried y cafeatau hyn, fod y strwythur newydd yn addas i'r Cyngor ac y bydd yn parhau i gyfrannu'n

gadarnhaol at welliant parhaus y Cyngor. Gan ddychwelyd i'r cwestiwn a ofynnwyd i ddechrau: 'A ydy'r system newydd yn well na'r hen un neu beidio?' mae fel petai'n ddiogel dweud, ar y cyfan, mae'n debyg ei bod.

**15. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gwella effeithiolrwydd Craffu yn elfen allweddol o flaenoriaeth 'Moderneiddio'r Cyngor' Sir Ddinbych yn y Cynllun Corfforaethol.

**16. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes cost ychwanegol yn codi o'r argymhellion.

**17. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Ymgynghorwyd â phob Aelod, partneriaid y Cyngor, yr Uwch Dîm Arwain, y rheolwyr canol a'r swyddogion cefnogi sy'n cyfrannu a Swyddfa Archwilio Cymru.

**18. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae cyflwyno'r system graffu newydd wedi arwain at rai arbedion cost ffiniol. Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**19. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

19.1. Byddai troi cefn ar y strwythur newydd yn lleihau effeithiolrwydd craffu ac yn gwanhau gallu'r Cyngor i wella.

19.2. Byddai peidio â chael strwythur clir yn ei le erbyn dechrau'r flwyddyn wleidyddol newydd yn bygwth gallu'r Cyngor newydd i weithredu'n effeithiol.

**20. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Erthyglau 4, 6, 13 a 16, Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych. Rhan III, Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych.
- Cod Llywodraethu Corfforaethol, adran 4.

**Scrutiny Questionnaire Results**  
**December 2011 – January 2012**

Question	Agree	Neither agree nor disagree	Disagree
1 Generally, Scrutiny committees meet once every six weeks. Do you feel that this is often enough?	18	1	12
2 The membership of Scrutiny was increased from 9 to 11 to ensure that all councillors would have the opportunity to be involved. Do you feel that this was a change for the better?	22	6	3
3 Do you feel that Members have enough information and support to perform their role on Scutiny?	16	9	6
4 The new structure was intended to make better use of Members' time by focussing on what was important. Do you think this has worked?	12	8	11
5 The new structure was intended to improve the scrutiny of partnerships and performance issues. Has this been successful?	12	11	8
6 Do you think that topics are being missed within the new Scrutiny system?	9	17	5
7 Do you think the new Scrutiny structure captures and develops Member expertise, providing a broader view of the council's work?	11	12	8

## Appendix II - Scrutiny Forward-Work Plans 2011-2012

### Communities Scrutiny

### Performance Scrutiny

### Partnerships Scrutiny

### Joint Partnerships Scrutiny

**May**

1. Ruthin Craft Centre

1. Crime and Disorder: Community Safety Partnership
2. Policing in the 21st Century
3. Partnerships Review and the Safer Communities Board

**June**

1. Allocation of additional resources for pupils with special educational needs
2. Preliminary flood risk assessment report – flood risk regulations 2009
3. Leisure strategy

\* Information Report – Local Housing Strategy – update report

**July**

Tudalen 44

1. Implications of the outcome of the V2 Appeal
2. Control of Caravan Sites
3. Management of Allocation of Section 106 Commuted Sums for open space provision and maintenance
4. 'Closer to the community'

1. Finance and Assets / Property / Asset Review

1. Guidance for engagement and consultation on changes to health services
2. The Betsi Cadwaladr University Health Board's 5 year plan
3. Dignified Care
4. Home enhanced care services (HECS)
5. North Denbighshire Locality Project
6. Ablett Unit
7. Communi

\* Information Report – Implementation of the Children & Families (Wales) Measure

\* Information Report – POVA case study update

\* Information Report – North Wales procurement arrangements

\* Information Report – Winter pressures 2011/12

**August**

**September**

1. 21st Century Schools Area Reviews
2. Modernising Education: Review of primary schools provision in the Edeyrnion area
3. Provision of music within schools
4. Development of a community engagement strategy

\* Information Report – Review of Licensing Procedures

1. Arrangements for the Estyn Inspection of Spring 2012\*
2. Evaluation of the impact of the use of the additional resources given to schools in 2010/2011 (Verbal preliminary report)

\* Information Report – External Examinations and Teacher Assessments 2010-11

1. Home enhanced care services (HECS)
2. North Denbighshire Coastal Locality – Community Healthcare Services Project
3. Denbighshire 14-19 Learning Pathways and Network\*
4. Issues arising from the Welsh Government's policy statement – sustainable social s

\* Information Report – Evaluation of the Vale of Clwyd Transformation arrangements

**October**

1. Review of Day care provision for older people in North Denbighshire
2. Review of roadside grass cutting
3. Getting closer to the community
4. Denbigh Town Plan

\* Information Report – Common Access Route to Housing

1. Evaluation of the impact of the use of the additional resources given to schools in 2010/2011
2. 'Your Voice' – Performance standards revealed through the complaints process
3. Annual Performance Review: 2010-11 and Quarterly Performance Report: Quarte

\* Information Report – Provisional Exam Results for Rhyl Sixth

November		<ol style="list-style-type: none"> <li>The council's IT strategy</li> <li>Children's Services</li> <li>Financial Report</li> <li>Budget Development Process</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Regional School Effectiveness and Improvement Service Project</li> <li>Progress in rationalising strategic partnerships</li> <li>Annual report on Adult protection in Denbighshire 2010-2011</li> <li>Conwy &amp; Denbighshire Local Safeguarding Children's Board (LSCB) annual r</li> </ol>	
December	<ol style="list-style-type: none"> <li>Impact of the community youth worker structure</li> <li>Denbighshire adult community education estyn inspection</li> <li>21st Century Schools</li> <li>Allocation of additional resources to Special Education Needs (SEN)</li> </ol> <p>* Information Report – Impact of cessation of free school transport for pupils living within Wrexham County Borough Council who attend Ysgol Dinas Bran, Llangollen</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Self Evaluation Report for Estyn</li> <li>Adult Services</li> <li>Monitoring Performance against the Corporate Plan (QPR 2)</li> <li>Corporate Project Register</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Waste Strategy Update &amp; Regional Procurement of Waste Treatment</li> <li>Regional Commissioning, Procurement and Monitoring Hub</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Regional and sub-regional partnerships, and the future role of partnerships</li> <li>Progress with respect to the Joint Highways and Infrastructure Collaboration</li> </ol>
January	<ol style="list-style-type: none"> <li>Foryd Harbour Mooring Fees and Charges</li> <li>Day services provision for older people in the north of the county</li> <li>Highway verge grass cutting</li> <li>Local housing strategy</li> </ol> <p>* Information Report – Review of Licensing Procedures</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>External Examinations and Teacher Assessments 2010-11</li> <li>Schools in financial difficulties</li> <li>Highways &amp; Infrastructure</li> <li>Energy Efficiency</li> <li>Monitoring the Capital Programme</li> </ol> <p>* Information Report – Your Voice complaints performance (including Social Services and Education complaints)</p> <p>* Information Report – Corporate Parenting Group</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>The BIG Plan</li> <li>Families First Update (post Cymorth funding cessation)</li> <li>Regional commissioning, procurement and monitoring hub for high cost low volume placements</li> </ol>	
February	<ol style="list-style-type: none"> <li>NHS Service review</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Housing Services</li> <li>Planning, Regeneration &amp; Regulatory Services Performance</li> <li>Monitoring Performance against the Corporate Plan (QPR3)</li> <li>Welsh Public Library Authorities: Annual return 2010/11 and review of the housebound service.</li> <li>Corporate Risk</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>NHS service reviews</li> <li>Regional school effectiveness and improvement service project</li> </ol>	
March	<ol style="list-style-type: none"> <li>Supporting People Strategy Update and Operational Plan 2012-13</li> <li>Residents' Survey</li> <li>Review of heritage and arts assets</li> <li>Monies allocated to Member Area Groups</li> <li>Etape Cymru</li> </ol>		<ol style="list-style-type: none"> <li>Children and Adolescent Mental Health Progress (CAMHS)</li> <li>Development of Localities (Health &amp; Social Care)</li> <li>Tourism</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Community Safety Partnership</li> <li>Planning and public protection</li> <li>Conwy &amp; Denbighshire mental health partnership</li> </ol>
April	<ol style="list-style-type: none"> <li>'Closer to the community' – Community engagement strategy</li> <li>Getting closer to the community – action plan</li> <li>Common access route to housing</li> <li>Provision of music within schools</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Monitoring the Capital Programme</li> <li>Financial Report 2011/12</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Annual audit of safeguarding children in education – quality assurance framework</li> </ol>	
May		<ol style="list-style-type: none"> <li>Your Voice complaints performance (including Social Services and Education complaints)</li> <li>Monitoring performance against the Corporate Plan (QPR 4)</li> <li>Financial Report 2010/12</li> <li>Review of educational support services (building capacity in schools)</li> </ol>		
No. of Items:	33	32	30	5

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>28 Chwefror 2012</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Cynghorydd Hugh Evans / Gary Williams, Swyddog Monitro</b>
<b>Awdur yr adroddiad:</b>	<b>Gary Williams – Swyddog Monitro Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adolygu'r Cyfansoddiad</b>

---

## **1. Beth ydy byrdwn yr adroddiad?**

Un o ffrydiau gwaith y Bwrdd Gweddnewid Busnes ydy adolygu Cyfansoddi y Cyngor ac mae cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys gwneud cynigion ar gyfer newidiadau i'r Cyfansoddiad. Y Cyngor llawn fydd yn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r Cyfansoddiad diwygiedig yn derfynol.

## **2. Beth ydy'r rheswm am gyflwyno'r adroddiad hwn?**

Hysbysu'r Aelodau am ganlyniadau'r broses ymgynghori hyd yma a'r meysydd lle'r awgrymwyd newidiadau. Gofynnir i'r Cyngor ystyried trosolwg y newidiadau arfaethedig yn yr adroddiad hwn, cyn cyfarfod o'r Cyngor lle bydd y newidiadau'n cael eu trafod yn fanwl. Bydd yr Aelodau'n cael copi o'r Cyfansoddiad newydd drafft yn y cyfarfod hwnnw yn y dyfodol, ac yn cael cyfle i ystyried y manylion yn y ddogfen. Mae'r gwaith o lunio'r fersiwn ddrafft yn digwydd ar hyn o bryd, ac mae'r Aelodau wedi gwneud cais am fersiwn sy'n amlygu'r newidiadau ('tracked changes') pan fydd y newidiadau'n cael eu hystyried yn fanwl.

## **3. Beth ydy'r argymhellion?**

### **3.1 Bod y Cyngor:**

- (i) yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth gan Aelodau o'r gweithdy Adolygu'r Cyfansoddi a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012.
- (ii) yn ystyried yr amlinelliad newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ac yn argymhell bod y Swyddog Monitro yn bwrw ymlaen â drafftio'r newidiadau fel y gall yr Aelodau weld y drafft llawn mewn cyfarfod arbennig arfaethedig o'r Cyngor ym mis Mawrth 2012.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ynghylch adolygu'r Cyfansoddiad. Pwrpas yr adroddiad hwn ydy darparu

trosolwg i'r Aelodau, yn enwedig yr Aelodau nad oeddynt yn medru bod yn bresennol yn y gweithdy ar 24 Ionawr 2012, ynghylch y newidiadau arfaethedig.

4.2 Roedd ugain Aelod yn bresennol yng ngweithdy Adolygu'r Cyfansoddiad ar 24 Ionawr. Cyflwynwyd cyflwyniad i'r gweithdy, ac mae copi ohono ynghlwm yn Atodiad 1.

4.3 Cafwyd trafodaeth ymhlith yr Aelodau a oedd yn bresennol yn y gweithdy ar y meysydd yn y cyflwyniad. Roedd yr adborth gan Aelodau fel a ganlyn:

#### 4.4 Y Cynllun Dirprwyo

Hysbyswyd yr Aelodau bod y rhan fwyaf o'r dirprwyo i swyddogion a gynhwysir yn y Cyfansoddiad yn ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, sydd wedyn yn medru trosglwyddo'r awdurdod i swyddogion eraill. Cynigiwyd i'r Aelodau, a gytunodd â'r cynnig, y dylai'r Cyfansoddiad fod yn fwy tryloyw ac y dylai'r cynllun dirprwyo gynnwys manylion y Penaethiaid Gwasanaeth y rhoddwyd pwerau dirprwyedig iddyn nhw.

4.5 Cynigiwyd i'r Aelodau y dylid nodi'r dirprwyo generig i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, gyda dirprwyo penodol i Benaethiaid Gwasanaeth yn cael ei nodi naill ai mewn tabl neu ar ffurf rhestr fel y gall unrhyw swyddog, Aelod neu aelod o'r cyhoedd adnabod yn rhwydd pa swyddog oedd ag awdurdod i gymryd pob gweithred ddirprwyedig. Pwysleisiwyd wrth yr Aelodau mai pwrpas cynllun o'r fath fyddai gwneud yr hyn sy'n bodoli eisoes yn fwy agored a thryloyw, ac nid i greu pecyn newydd o bwerau dirprwyedig. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r cynllun dirprwyo fod yn fwy tryloyw.

4.6 Fel rhan o'r cyflwyniad, rhoddwyd enghreifftiau i Aelodau o bwerau dirprwyedig i Aelodau Cabinet; roedd rhai ohonynt yn eglur iawn a rhai o bosibl yn cael eu dyblygu rhwng portffolios Cabinet. Cytunodd Aelodau y dylid adolygu eglurder disgrifiad portffolios yn y Cyfansoddiad er mwyn osgoi dyblygu pwerau dirprwyedig.

#### 4.7 Disgrifiad Swyddogaethau

Mae Rhan 3 y Cyfansoddiad cyfredol yn darparu disgrifiad o swyddogaethau'r awdurdod, ac yn disgrifio'r swyddogaethau hynny a weithredir gan y Cyngor a'r rhai a weithredir gan y Cabinet. Mae'r Cyfansoddiad cyfredol yn cyfeirio at reoliadau sydd wedi eu diweddarau yn ddiweddarach ac yn disgrifio swyddogaethau trwy gyfeirio at y rheoliadau. Nid yw geiriad y Cyfansoddiad yn ei gwneud yn glir i swyddog, Aelod neu aelod o'r cyhoedd pa rai sy'n swyddogaethau'r Cyngor a pha rai sy'n swyddogaethau'r Cabinet, heb gyfeirio at y rheoliadau. Cynigiwyd i Aelodau y dylai Rhan 3 y Cyfansoddiad restru'r swyddogaethau hynny sy'n swyddogaethau'r Cyngor, y swyddogaethau hynny sy'n swyddogaethau "dewis lleol", y swyddogaethau hynny a weithredir gan y Cabinet neu'r Cyngor Llawn gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, a'r swyddogaethau hynny sy'n gyfrifoldeb y Cabinet. Bydd hyn yn gwneud y Cyfansoddiad yn fwy swmpus, ond bydd yn rhoi mwy o eglurder i swyddogion,

Aelodau, ac aelodau'r cyhoedd. Cytunodd yr Aelodau yn y gweithdy y dylid drafftio'r rhan hon o'r Cyfansoddiad yn y fformat hwn.

#### **4.8 Cylch Gwaith Pwyllgorau**

Hysbyswyd yr Aelodau yn y gweithdy am y meysydd yr oedd angen eu diweddaru. Mae angen diweddaru rhestr pwerau'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Hapchwarae 2005. Hefyd mae angen newid cylch gwaith Llywodraethu Corfforaethol i gynnwys cyfeiriadau at bresenoldeb a hyfforddiant aelodau. Byddai'n rhaid adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio hefyd i sicrhau bod y pwerau a ddisgrifir yn y cylch gwaith yn gyfredol. Cytunodd yr Aelodau â'r newidiadau arfaethedig hyn.

#### **4.9 Rheolau Gweithdrefnau Contract**

Fel rhan o'r cyflwyniad i Aelodau, rhoddwyd gwybodaeth iddynt ynghylch yr hyblygrwydd cynyddol allai fod ar gael mewn perthynas â gwasanaethau "Rhan B". Roedd yr Aelodau'n fodlon i'r rheolau gweithdrefnau contract gael eu newid yn unol â hynny. O ran y Pwyllgor Agor Tendrau, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd yn ofynnol i'r Aelod Arweiniol fod yn bresennol cyn belled ag y bo arolygaeth annibynnol a rhagofalon digonol yn eu lle.

#### **4.10 Rhyddid Gwybodaeth**

Rhoddwyd esboniad i Aelodau o'r cysyniad o Banel Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys swyddogion wedi'u hyfforddi'n benodol i ymdrin â cheisiadau rhyddid gwybodaeth. Diben y Panel fyddai sicrhau cysondeb wrth benderfynu pa geisiadau y dylid eu heithrio rhag eu datgelu. Mewn awdurdodau eraill lle mae Panel Rhyddid Gwybodaeth yn bodoli, y Panel yw'r unig gorff sydd â'r hawl i eithrio unrhyw wybodaeth rhag cael ei datgelu. Canlyniad hyn yw bod gwybodaeth yn fwy tebygol o gael ei chyhoeddi gan y byddai dull corfforaethol cyson ar waith wrth drafod eithriadau. Cytunodd Aelodau y byddai Panel Rhyddid Gwybodaeth yn syniad da ac y dylid disgrifio Panel o'r fath yn briodol yn y Cyfansoddiad.

#### **4.11 Aelodau**

Fel rhan o'r cyflwyniad, hysbyswyd yr Aelodau yn y gweithdy o'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod blaenorol, sef y dylid bod disgwyl i Aelodau fynychu mwy na'r isafswm statudol o gyfarfodydd, ond ei bod yn anodd pennu ffigur. Roedd yr Aelodau'n cytuno y dylid bod disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd, fodd bynnag, mynegwyd safbwyntiau ynghylch gallu Aelodau o gefndiroedd gwahanol, e.e. rhai sydd mewn cyflogaeth llawn amser, i fynychu cymaint o gyfarfodydd ag eraill. Hysbyswyd Aelodau y byddai'r system Modern.gov. a fydd yn cael ei chyflwyno yn fuan yn darparu ffigurau presenoldeb yn awtomatig mewn modd cyhoeddus.

4.12 Fel rhan o'r cyflwyniad, hysbyswyd yr Aelodau am safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynglŷn â gwneud hyfforddiant ynghylch cynllunio a'r cod ymddygiad yn orfodol. Gofynnwyd i'r Aelodau am eu barn ynghylch pa

feysydd hyfforddiant eraill ddylai fod, neu a allai ddod yn orfodol. Cytunodd yr Aelodau y dylai hyfforddiant ynghylch cynllunio a'r côd ymarfer fod yn orfodol. Gwnaethpwyd awgrym pellach y dylid hefyd gwneud rhyw fath o hyfforddiant ar ariannu llywodraeth leol yn orfodol ond ni awgrymwyd unrhyw feysydd eraill.

- 4.13 Cafwyd trafodaeth ynghylch y gofynion yn y cod ymddygiad i gofrestru rhoddion a lletygarwch. Hysbyswyd yr Aelodau bod nifer o awdurdodau yn nodi swm ariannol yn eu cod ymddygiad fel nad oes rhaid cofrestru rhoddion a lletygarwch sydd yn is na'r swm hwn. Nid yw'r cod ymddygiad cyfredol yn Sir Ddinbych yn nodi unrhyw ffigwr sy'n golygu y gallai Aelodau yn dechnegol fod yn torri rheolau pe byddent yn derbyn unrhyw roddion a lletygarwch o ba bynnag werth ond ddim yn eu cofrestru. Y farn gyffredinol yn y cyfarfod oedd y byddai'n briodol newid y côd ymddygiad i alluogi Aelodau i dderbyn rhoddion a lletygarwch gwerth hyd at £25 heb fod angen cofrestru hynny.

#### 4.14 Disgrifiadau rôl Aelodau

Rhodddwyd copiâu o ddisgrifiadau rôl drafft Aelod ac Arweinydd Grŵp i Aelodau yn y gweithdy. Mae'r holl ddisgrifiadau rôl arfaethedig ynghlwm yn Atodiad 2.

- 4.15 Trafododd Aelodau gynnwys y disgrifiad rôl gan godi nifer o faterion. Roedd y mater cyntaf yn ymwneud â'r gofyniad i fynychu'r holl gyfarfodydd perthnasol. Gofynnwyd y cwestiwn a oedd diffiniad o "gyfarfodydd perthnasol". Agwedd arall o'r disgrifiad rôl a oedd yn achosi peth pryder i rai Aelodau oedd y cyfeiriad at werthusiad blynyddol i Aelodau. Awgrymodd yr Arweinydd yn y cyfarfod nad oedd y gwerthusiad o reidrwydd yn broses lle byddai Aelodau yn cael eu barnu o ran eu heffeithiolrwydd neu ddiffyg effeithlonrwydd, ond yn gyfle i Aelodau adnabod meysydd lle yr hoffent gefnogaeth neu hyfforddiant neu ddatblygiad i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau. Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Moderneiddio Addysg, a oedd wedi bod yn drafftio'r disgrifiadau rôl yn barod ar gyfer y Cyngor newydd, yn cael ei hysbysu am y materion a godwyd gan Aelodau.

#### 4.16 Protocol Hunan Reoleiddio

Cafwyd trafodaeth ymhlith Aelodau ynghylch cynnwys y Protocol Hunan Reoleiddio i ymdrin â chwynion is na'r trothwy yn y cod ymddygiad ar sail fwy lleol, lle bo'r cwynion hynny wedi'u gwneud gan Aelod o'r Cyngor Sir yn erbyn Aelod arall. Roedd Aelodau o'r farn bod hyn yn beth da gan gadarnhau y dylid cynnwys y protocol yn y Cyfansoddiad.

#### 4.17 Cabinet

Fel rhan o'r cyflwyniad, rhodddwyd gwybodaeth i Aelodau ynghylch y broses o wneud penodiadau i'r Cabinet. Ar hyn o bryd, mae Cabinet Sir Ddinbych yn wleidyddol gytbwys. Mae'r Arweinydd yn gallu penodi Cyngorwyr i'r Cabinet ar ôl ymgynghori ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol. Os yw grŵp gwleidyddol yn gwrthod cymryd unrhyw rai, neu eu holl seddi yn y Cabinet ar adeg penodi'r Cabinet, mae'r Arweinydd yn gallu penodi Cyngorwyr i lenwi'r seddi gwag yn dilyn ymgynghoriad pellach ag arweinyddion y grwpiau

gwleidyddol. Ni fydd rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol wrth lenwi seddi gwag o'r fath.

- 4.18 Nid oes unrhyw reidrwydd cyfreithiol i'r Cabinet fod yn wleidyddol gytbwys. Mae Adran 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn eithrio cyrff gweithredol rhag cydbwysedd gwleidyddol.
- 4.19 Hysbyswyd yr Aelodau o gynnig a oedd wedi codi yn ystod yr ymgynghori ac a oedd wedi'i roi gerbron Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad sef na ddylai rheolau cydbwysedd gwleidyddol fod yn berthnasol i'r Cabinet gan y gallai hyn annog grwpiau i hollti gyda phosibilrwydd o greu nifer o grwpiau llai er mwyn ystumio'r rheolau ar gydbwysedd gwleidyddol. Y cynnig a wnaed i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad oedd y dylai egwyddor cydbwysedd gwleidyddol fod yn weithredol wrth benodi i'r Cabinet, ond y dylai fod yn weithredol yn unig i grwpiau ag aelodaeth o 5 neu fwy. Ystyriwyd bod hyn yn cyd-fynd â chynigion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd wedi penderfynu y dylid talu cyflog Arweinydd Grŵp i arweinyddion grwpiau sydd â 10% neu fwy o aelodaeth yr awdurdod yn unig, a gyda chynllun lwfansau cyfredol Sir Ddinbych sydd ond yn talu lwfans Arweinydd Grŵp i arweinydd grŵp sydd â 5 neu fwy o aelodau.
- 4.20 Daeth yn amlwg o'r drafodaeth yn y cyfarfod bod barn gyffredin y byddai hyn yn hyrwyddo sefydlogrwydd gwleidyddol yn y Cyngor. Roedd cytundeb ymhlith Aelodau y dylid cynnwys y cynnig hwn yn y Cyfansoddiad.
- 4.21 Un maes a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar iawn ydy'r cyfle i ddiweddarau'r trothwyon ar gyfer dyfarnu contractau gan y Cabinet, o £250,000 i £1 miliwn. Cafodd y trothwyon cyfredol eu pennu yn ôl yn 2004 ac ni chawsant eu diweddarau ers hynny. Y trothwyon cyfredol ydy:

Hyd at £100,000 gan y Prif Swyddog  
Rhwng £100,000 a £250,000 gan yr Aelod Arweiniol  
Dros £250,000 gan y Cabinet

Mae swyddogion yn treulio swm sylweddol o amser ar y broses o gymeradwyo dyfarnu'r contract yng nghyswllt contractau gwerth isel. Yn ychwanegol, byddai cynyddu trothwy'r Cabinet yn rhyddhau amser y Cabinet i ymdrin â materion gwerth uwch neu unrhyw faterion eraill. Y cynigion ydy dyfarnu contract:

- a) gan y Pennaeth Gwasanaeth, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid, os ydy gwerth y contract yn is na £250,000
- b) gan yr Aelod Cabinet y mae'r gwasanaeth yn rhan o'i bortffolio, ar sail adroddiad gan y Prif Swyddog, os ydy gwerth y contract rhwng £250,000 a £1 miliwn.
- c) yn dilyn adroddiad i'r Cabinet os ydy gwerth y contract dros £1 miliwn.

Daeth y mater hwn i'r amlwg ar ôl cynnal y gweithdy felly, i fod yn deg, nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle i drafod y mater hwn. Fodd bynnag, croesewir adborth gan y Cyngor llawn ar y cynnig hwn yn awr.

Gellir sicrhau'r Aelodau bod yr ymrwymiad cyfreithiol i gydymffurfio â chfundrefn Gaffael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau, ac nad yw'n effeithio ar lefelau dyfarnu mewnol y Cyngor.

#### 4.21 Siarad cyhoeddus

Hysbyswyd yr Aelodau yn y gweithdy am weithdrefnau rhai awdurdodau eraill sydd yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn. Awgrymwyd bod y broses hon yn gyson ag uchelgais y Cyngor o fod yn nes at y gymuned. Esboniwyd wrth yr Aelodau y cyfyngiadau a roddwyd ar yr hawl i ofyn cwestiynau i'r Cabinet a/neu'r Cyngor mewn awdurdodau eraill, e.e. rhoi 7 diwrnod o ragybudd o'r bwriad i ofyn cwestiwn, cyfyngiadau amser i bob aelod o'r cyhoedd sydd am siarad, a'r meini prawf ynghylch y materion pwnc a fyddai'n destun y cwestiynau.

4.22 Roedd yr aelodau yn y gweithdy yn cytuno'n fras nad oeddynt eisiau gweld system o'r fath yn cael ei chyflwyno yn Sir Ddinbych. Teimlai'r Aelodau yn benodol mai'r Cyngor Llawn oedd yr unig lwyfan lle gallai llawer o Gynghorwyr siarad ar faterion, ac y gallai aelodau o'r cyhoedd gysylltu â Chynghorwyr i godi materion ar eu rhan.

#### 4.23 Protocolau

Bu trafodaeth ymhlith Aelodau ynghylch y math o brotocolau y dylid eu cynnwys yn y Cyfansoddiad. Hysbyswyd Aelodau bod nifer o brotocolau yn bodoli; fodd bynnag, nid ydynt yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd ac felly mae'n bosibl na fydd rhai swyddogion/aelodau o'r cyhoedd yn gwybod eu bod yn bodoli. Un enghraifft o hyn oedd y protocol cynllunio a oedd eisoes wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ond nad oedd yn ymddangos yn y Cyfansoddiad.

4.24 Ymhlith meysydd eraill sy'n addas i'w cynnwys fel atodiadau i'r Cyfansoddiad mae canllawiau i Aelodau ynghylch eu gweithgareddau ar gyrrff allanol, a phrotocol a chanllawiau i Aelodau ynghylch eu hawliau i gael mynediad at wybodaeth. Byddai'r ddogfen hon yn mynd ymhellach na rhestru'r rheolau cael mynediad at wybodaeth yn unig. Ystyriwyd hefyd bod protocol hunan reoleiddio Aelodau yn nhermau'r côd ymddygiad hefyd yn brotocol a ddylid ei gynnwys fel atodiad i'r Cyfansoddiad.

4.25 Hefyd holodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â swyddogion ac eraill yn cysylltu ag Aelodau lleol ynghylch materion sy'n effeithio ar eu wardiau. Hysbyswyd Aelodau bod gan rai awdurdodau brotocol ar gyswllt ag Aelodau lleol fel atodiad i'w Cyfansoddiad, a theimlai Aelodau y byddai hyn yn syniad da gan y byddai'n rhoi canllawiau eglur yn y maes hwn i swyddogion ac Aelodau.

4.26 Roedd Aelodau hefyd yn awyddus i gael eu hysbysu pan fyddai Gweinidogion, Aelodau Seneddol ac ati yn ymweld â'u ward, gan nodi bod angen eglurder ynghylch rolau cynrychiolwyr y Cyngor wrth fynychu ymweliadau o'r fath. Awgrymwyd y gellid cynnwys protocol yn ymdrin â'r materion hyn fel atodiad i'r

Cyfansoddiad. Trafodwyd hyn ymhellach o ran rôl Cadeirydd y Cyngor wrth gyfarch ymwelwyr nodedig ac ati.

#### **4.27 Mesur Llywodraeth Leol Cymru**

Fel rhan o'r cyflwyniad, hysbyswyd Aelodau o'r meysydd y byddai'n rhaid eu diwygio yn y Cyfansoddiad yn sgil Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011. Hysbyswyd yr Aelodau yn y gweithdy bod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau neu reoliadau ar lawer o'r materion hyn ac mae'r Canllawiau Drafft wedi eu cyhoeddi yn awr ar gyfer ymgynghori, a bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 30 Mawrth 2012. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'n rhaid diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol Cymru wrth iddynt ddod i rym.

Cynigir bod Nodyn Briffio ar y canllawiau ar gael i Aelodau cyn y cyfarfod.

#### **4.28 Adolygu'r Cyfansoddiad yn barhaus**

Fel rhan o'r cyflwyniad, hysbyswyd Aelodau bod swyddogion yn credu y byddai'n briodol adolygu'r Cyfansoddiad yn rheolaidd, ac y dylai'r Cyngor Llawn wneud unrhyw newidiadau oedd eu hangen i'r Cyfansoddiad yn chwarterol neu'n flynyddol. Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r awgrym hwn.

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen gwelliannau corfforaethol y Bwrdd Gweddnewid Busnes, ac mae'n cyfrannu at y flaenoriaeth o Gyngor sy'n perfformio ar y lefel uchaf.

### **6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd hyn yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

### **7. Pa ymgynghori a gynhaliwyd?**

Cynhaliwyd Gweithdy i Aelodau, anfonwyd holiaduron trwy'r post i'r holl Aelodau yn unigol, ymgynghorwyd yn eang â swyddogion ac mae Gweithgor a dau is-grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd.

Ni nodwyd bod angen ymgynghori allanol.

### **8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Nid yw'n ofynnol.

### **9. Beth ydy'r risgiau, ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna fwy o risg os na chaiff y Cyfansoddiad ei ddiweddarau. Mae'n rhaid i'r Cyfansoddiad diwygiedig adlewyrchu'r gyfraith, a bydd nifer o swyddogion o wahanol ddisgyblaethau yn sicrhau ansawdd y ddogfen.

## **10. Y pŵer i wneud y penderfyniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor llawn fabwysiadu Cyfansoddiad.

Gall y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wneud cynigion ar gyfer newidiadau i sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau i alluogi'r Cyngor i ddarparu arweiniad eglur i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a chyrff eraill fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Pwyllgor hwnnw yn gwneud argymhellion ffurfiol yn awr i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor llawn.

# Modernising the Constitution

MEMBERS' WORKSHOP

24<sup>th</sup> JANUARY 2012

Gary Williams Monitoring Officer

Lisa Jones Deputy Monitoring Officer

# Scheme of Delegation – Officers

Currently: Most delegations are to CEO who then passes the authority down.

Proposal : -

Generic delegations to CEO, Directors.

Specific delegations direct to Chief Officers/Heads of Service.

Framework for each of the above

# e.g. Corporate Director Demographics, Wellbeing

- 1. To act as the Council's Statutory Director of Social Services in accordance with Section 6 of the Local Authorities Social Services Act 1970 in relation to the Council's Social Services functions, including social services for children. Arrangements for the discharge of this responsibility in relation to children's social services are contained in.....
- 2. The strategic and operational delivery and/or securing by the Council of Personal Social Services for Adults.
  - Adult services, including mental health, learning disabilities, older people, physical disabilities;
  - Performance and Financial Management, including complaints and representations relating to personal social services for adults;
  - Support services, including Human Resources;
  - Inter-agency and Partnership Working;
- Commissioning and contracting across all services.
- 3. In particular, to exercise those functions of the Council which relate to personal social services for adults under the appropriate Sections of the following Acts as amended or re-enacted.
  - National Assistance Act 1948
  - Disabled Persons (Employment) Act 1958
  - Health Services and Public Health Act 1968
  - Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970
  - Supplementary Benefits Act 1976
  - Mental Health Act 1983
  - Health and Social Services and Social Security Adjudication Act 1983
  - Public Health (Control of Disease) Act 1984
  - Housing Act 1985
  - Disabled Persons (Services, Consultation and Representation) Act 1986
  - National Health Service and Community Care Act 1990 etc etc etc .....

# e.g. Head of Planning, Regeneration and Regulatory Services

- To have the power:-
- 1. To Authorise in writing all officers of the Planning and Public Protection Department who may from time to time be employed to discharge the specific duties and functions delegated to the Head of Housing and Public Protection, subject to such officers being suitably qualified for the discharge of those duties and functions.
- 2. To undertake inspections, investigations, interviews, sampling, prohibitions, seizures, detentions, recording, service of notices, (including suspension notices), notifications, waivers, transfers, authorisations, licensing, registrations and legal proceedings as are within the purview of the Housing and Public Protection Department under the legislation applicable thereto set out below, together with any regulations made thereunder, and any amendments or additions thereto and to exercise all other relevant powers, including powers of entry provided under such legislation.
- **Legislation**
- Accommodation Agencies Act, 1953
- Administration of Justice Act, 1970
- Agriculture Produce (Grading and Marking) Act, 1928
- Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act, 1968, 1972 and 1976
- Agriculture Act, 1970
- Animal Boarding Establishments Act, 1963
- Animal Health and Welfare Act, 1984
- Animal Health Act, 1981
- Animal Health Act 1998
- Animal Health Act 2002
- Animal Welfare Act 2006
- Anti-Social Behaviour Act 2003
- Anti-Terrorism, Crime and Security Act 2001
- Protection of Animals Act 2000
- Banking Act, 1987
- Breeding of Dogs Act, 1973 and 1991
- Building Act, 1984
- Business Names Act, 1985
- Cancer Act, 1939
- Caravan Sites and Control of Development Act, 1960

# Overall limitations

- The scheme will not delegate to Officers:
- Any decision reserved to Full Council
- Any decision which by law cannot be delegated to an Officer
- Any decision expressly withdrawn from the Scheme at any time or by Cabinet.

# Delegations to members

- Greater clarity in some areas, but retaining flexibility.
- Cabinet portfolios – review clarity, avoid duplication.

# Examples of Specific Member delegation:

- Good clear example:
- **Lead Member for Modernisation and Improvement**
- Disposals of freehold interest in land where the estimated market value is between £30k and £500k, with the power to approve sale at less than market value where the undervalue does not exceed £100k. This delegation does not include the power to approve an undervalue for sales in the Lead Member's electoral division.

# Examples of Specific Member Delegation

- Not so clear:
- Leader – specific delegation to appoint school governors
- But this also lies within the Lead Member for Education portfolio. Reliance may be on a general delegation not a specific.
- **Lead Members general delegations:**
- To make appointments to external bodies whose remit lies wholly within the Cabinet Member's portfolio to fill any vacancies that occur before the next Ordinary election of Councillors. This delegation does not include appointments to joint committees with other local authorities under section 101 of the Local Government Act 1972.

# Council or Cabinet?

- Constitution currently reiterates the Regulations – not user friendly!
- Proposal:

Schedule Format

Will be lengthier!

But should provide clarity for Officers,  
Members and the public.

# Suggested format:

- **Responsibility for Functions**
- **Introduction**
- 1.1 This Part of the Constitution specifies the various responsibilities for functions of the Council.
- 1.2 It has been prepared in tabular format for ease of reference as follows:
- 1.3 **Table 1**
- Those functions which are "local choice" functions (i.e. they may, but need not, be the responsibility of the Cabinet).
- 1.4 **Table 2**
- Those functions which are the responsibility of the Full Council to discharge.
- 1.5 **Table 3**
- Those functions which are exercised by the Cabinet or the Full Council, depending on the circumstances.
- 1.6 **Table 4**
- Those functions which are the responsibility of the Cabinet.
- 1.7 **Table 5**
- **Delegations to Officers**
- 
- Sets out details of various powers or functions delegated to Officers of the Council.

# Committee Terms of Reference

- Licensing – the list of powers needs updating due to Gambling Act
- Corporate Governance – receive reports on member attendance at meetings and training.
- Planning – a review of the powers to ensure up to date.

# Contract Procedure Rules

Could be more flexible for 'Part B' services in particular Social Services procurement processes.

Clackmannanshire case has provided legal comfort that there are the flexibilities there which can aid efficiencies

Will avoid re-procuring a service just for the sake of it which may not produce any savings.

# Contract Procedure Rules

- Tender Opening Committee – many Councils no longer have members in attendance.
- E- procurement will provide the safeguards against fraud/corruption.
- Feedback from Lead members is that they would welcome the option of attending or not, but providing there is independent oversight eg by another head of service or legal services.

# Freedom of Information

- Formalised Panel
- Consistency of approach
- Knowledge of the legislation
- More likely to result in publication than individual departments making the decision not to disclose.

# Members

- Attendance at meetings – steer from CGC that there should be expectations over and above the stat. minimum, but what?
- Modern.gov and publicity of attendance
- Mandatory training – CGC provided a steer on Planning and Code of Conduct as a minimum, member feedback suggests other areas also need to be mandatory, but what?
- Limit of gifts and hospitality

# Members Role Descriptions

- Member

# Members Role Descriptions

- Group Leader

# Cabinet

- Appointments
- s.24 Local Government Act 2000

# Self Regulatory Protocol

- Code of Conduct
- Clear breach = PSOW
- Sub threshold deal with locally via the Self Regulatory Protocol
- Copy has been provided in October to all Members
- Group Leaders also consulted.
- PSOW endorsed in principle.

# Protocols

- Planning – already adopted by Full Council but should be incorporated within the Constitution. Principles are embedded.
- Outside Bodies (list to be reviewed)
- Members Access to Information
- Members Self Regulatory Protocol

# Public Speaking

- At Cabinet and/or Full Council
- Outward looking Council
- Closer to the Community
- Notice period from the public eg 7 days
- Limitations – time limits and content
- Discretion on whether to allow

# Wales Measure

- Will necessitate amending Constitution
- Duty to conduct a survey
- Remote attendance
- Annual reports by Members
- Timing of Council meetings/Family absence
- New Statutory post- Head of Democratic Services
- Democratic Services Committee
- Joint Overview and Scrutiny Committees

# Continuous updating...

- A standing slot at Full Council/quarterly to update Council on changes.
- Continuous review
- Will deal with the Wales Measure as it is implemented.

# Adoption

- Informal Council – was itemised on the 10<sup>th</sup> January but not dealt with due to time constraints.
- Full Council - aiming for 28<sup>th</sup> February but may be March date t.b.c

# Group Exercise

- Each group will be given an issue.
- Each group to nominate a spokesperson
- As a Group consider your issues.
- One Spokesperson to report

This page is intentionally left blank

<b>Adroddiad ar gyfer:</b>	Y Cyngor
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	28 Chwefror 2012
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Pennaeth Cyllid ac Asedau
<b>Teitl:</b>	Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2012/13 a Dangosyddion Darbodus 2012/13 i 2014/15

## **1 Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn dangos sut y gwnaiff y Cyngor reoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau am y flwyddyn i ddod ac mae'n gosod allan y polisiâu y bydd y swyddogaeth Reoli'r Trysorlys yn gweithio o'u mewn.

## **2 Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?**

- 2.1 Yn ôl Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli'r Trysorlys, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae angen penderfyniad felly i gymeradwyo'r argymhellion isod.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2012/13.
- 3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2012/13 (Atodiad A).
- 3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2012/13, 2013/14 a 2014/15 (Atodiad B).
- 3.4 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Darpariaeth Refeniw Isaf (Atodiad A, Adran 6).
- 3.5 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r defnydd o Fuddsoddiadau Penodol ac Amhenodol (Atodiadau D ac E).

## **4 Manylion yr Adroddiad**

### **Cefndir**

- 4.1 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys gofalu am arian y Cyngor sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor oherwydd bod oddeutu £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.
- 4.2 Ar unrhyw adeg, mae gan y Cyngor o leiaf £20m mewn arian felly mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyflawni'r gyfradd adennill orau posib heb roi'r arian

mewn perygl sef y rheswm y byddwn yn buddsoddi arian â nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor ydi:

- cadw arian yn saff (diogelwch);
- gofalu ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fydd ei angen (hylifedd);
- gofalu ein bod yn cael cyfradd adennill weddus (arenillion).

### **Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2012/13**

- 4.3 Mae Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2012/13 wedi ei gosod allan yn Atodiad A. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgaredd rheoli trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod benthyca'r Cyngor yn fforddiadwy.

#### **Dangosyddion Darbodus:**

- 4.4 Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf arfaethedig diweddaraf a dyraniadau bloc.
- 4.5 Fe gyfrifwyd dangosyddion y Cyfrif Refeniw Tai yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar Chwefror 21, 2012 ac maen nhw'n seiliedig ar Gynllun Busnes y Stoc Tai.
- 4.6 Mae'r Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi eu gosod allan yn Atodiad B.

### **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Bydd strategaeth effeithlon i Reoli'r Trysorlys yn caniatáu i'r Cyngor isafu costau benthyca a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

### **6 Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Does yna ddim oblygiadau cost yn codi o osod y Dangosyddion Darbodus. Pwynt Strategaeth Reoli'r Trysorlys ydi cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg sydd wedi ei reoli'n briodol.

### **7 Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

- 7.1 Fe baratowyd Cynllun Cyfalaf y Cyngor a'r Gyllideb Refeniw mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Cyngor.
- 7.2 Mae Cynllun Busnes y Stoc Tai, cyllidebau refeniw a chyfalaf wedi eu cyflwyno i aelodau Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Fe ymgynghorir hefyd â Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar y cynigion.

- 7.3 Fe adolygwyd y Datganiad Strategaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar Chwefror 08, 2012.  
**Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
- 7.4 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys gofalu am symiau o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheoliadau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, i sicrhau cyflawni pob enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn ddarbodus.
- 7.5 Mae cyllideb refeniw 2012/13 yn tybio y bydd y Cyngor yn ymgymryd â £3.65m o fenthycu darbodus newydd i ariannu gwariant cyfalaf ar Briffyrdd a £4m i gynorthwyo prosiectau adfywio ac ysgolion. Yn ogystal, fe ddefnyddir derbyniadau cyfalaf a chronfeydd wrth gefn i ariannu cynlluniau penodedig. Mae effaith hyn yn gyfwerth â chynnydd mewn Treth Cyngor fel y'i dangosir yn Atodiad B Dangosydd Darbodus Rhif 5. Fodd bynnag, mae mwyafrif y costau cyfalaf yn cael ei ariannu o grantiau a benthycu a gynhelir drwy'r System Grant Cynnal Refeniw.
- 7.6 Felly hefyd, mae'r Cynllun Busnes Stoc Tai'n tybio y bydd yna fenthycu darbodus ac fe gaiff ei ariannu drwy gynnydd cyfwerth mewn rhenti tai wythnosol fel y'i dangosir yn Atodiad B Dangosydd Darbodus Rhif 5.
- 7.7 Mae angen i'r Cyngor fabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth y Trysorlys (Tachwedd 11). Mae'n ofyniad y Cod i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys bob blwyddyn ariannol.

## **8 Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 8.1 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn fentrus yn ei hanfod fel y'i hamlinellir yn y Datganiad Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosib dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl.

## **9 Grym i wneud y Penderfyniad**

- 9.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol osod Dangosyddion Darbodus ac mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd wedi ei gynhyrchu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

This page is intentionally left blank

## DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2012/13

### 1 RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

- 1.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu argymhellion allweddol Rheolaeth y Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod) CIPFA, fel y'i disgrifir yn Adran 5 y Cod.
- 1.2 Yn unol â hynny, fe wnaiff y Cyngor greu a chynnal, fel y conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol y trysorlys:-
  - Ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys, yn datgan y polisïau, yr amcanion a'r ymagwedd tuag at reoli risg ei weithgareddau rheoli'r trysorlys
  - Arferion addas o reoli'r trysorlys (ARhT), sy'n gosod allan y dull y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn pennu sut y bydd yn rheoli ac yn arolygu'r gweithgareddau hynny.
- 1.3 Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cynnwys, fel isafswm, strategaeth flynyddol a chynllun am y flwyddyn ymlaen llaw, adolygiad canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben, yn y ffurf a bennir yn ei Harferion Rheoli'r Trysorlys.
- 1.4 Bydd y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn flynyddol ac yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu'n unol â datganiad polisi'r sefydliad ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar Reolaeth y Trysorlys.
- 1.5 Y Cyngor sy'n enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu strategaeth reoli'r trysorlys a pholisïau'n effeithiol.

### 2 POLISÏAU AC AMCANION GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS

- 2.1 Bydd y Cyngor yn diffinio gweithgareddau rheoli'r trysorlys fel:

